



---

## **Adroddiad ar y Gwasanaethau Gorfodi Cyfraith Bwyd**

Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili  
18 – 22 Ionawr 2016

## Rhagair

Mae archwiliadau o wasanaethau gorfodi awdurdodau lleol o ran cyfraith bwyd a bwyd anifeiliaid yn rhan o drefniadau'r Asiantaeth Safonau Bwyd i wella diogelwch a hyder cwsmeriaid mewn perthynas â bwyd a bwyd anifeiliaid. Mae'r trefniadau hyn yn cydnabod mai cyfrifoldeb awdurdodau lleol yn bennaf yw gorfodi cyfraith bwyd a bwyd anifeiliaid y Deyrnas Unedig (DU) o ran diogelwch bwyd, hylendid, cyfansoddiad, labelu, bwyd a fewnforir, a bwyd anifeiliaid. Caiff swyddogaethau rheoleiddio'r awdurdodau lleol hyn eu darparu yn bennaf drwy eu Gwasanaethau Iechyd yr Amgylchedd a Safonau Masnach.

Mae'r adroddiad archwilio atodedig yn edrych ar Wasanaethau Gorfodi Cyfraith Bwyd yr awdurdod lleol. Mae'r asesiad yn cynnwys ystyriaeth o'r systemau a'r gweithdrefnau sydd wedi'u sefydlu ar gyfer ymyriadau mewn busnesau bwyd, samplu bwyd, rheolaeth fewnol, rheoli ac ymchwilio i achosion a chlefydau heintus sy'n gysylltiedig â bwyd, cyngor i fusnesau, gorfodi a hyrwyddo diogelwch bwyd. Dylid cydnabod y bydd llawer o amrywiaeth efallai o ran y ffordd y gall awdurdodau lleol ddarparu eu gwasanaethau gorfodi cyfraith bwyd, sy'n adlewyrchu anghenion a blaenoriaethau lleol.

Mae archwiliadau'r Asiantaeth yn asesu cydymffurfiaeth awdurdodau lleol â'r Safon Gorfodi Cyfraith Bwyd a Bwyd Anifeiliaid. Mae'r "Safon", a gyhoeddwyd gan yr Asiantaeth fel rhan o'r Cytundeb Fframwaith ar Reolaethau Bwyd a Bwyd Anifeiliaid Swyddogol gan Awdurdodau Lleol (diwygiwyd mis Ebrill 2010) ar gael ar wefan yr Asiantaeth:

[www.food.gov.uk/enforcement/enforcework/frameagree](http://www.food.gov.uk/enforcement/enforcework/frameagree) – cliciwch ar 'Cymraeg'

Prif nod y cynllun archwilio yw cynnal a gwella diogelwch a hyder defnyddwyr drwy sicrhau bod awdurdodau lleol yn darparu gwasanaeth gorfodi cyfraith bwyd a bwyd anifeiliaid effeithiol. Mae'r cynllun hefyd yn rhoi'r cyfle i nodi a lledaenu arfer da ac yn darparu gwybodaeth i lywio polisi'r Asiantaeth ar ddiogelwch bwyd, safonau bwyd a bwydydd anifeiliaid ac mae ar gael drwy:

[www.food.gov.uk/enforcement/auditandmonitoring](http://www.food.gov.uk/enforcement/auditandmonitoring) – cliciwch ar 'Cymraeg'

Mae'r adroddiad yn cynnwys rhywfaint o ddata ystadegol, er enghraifft ar nifer yr arolygiadau o sefydliadau bwyd a gynhaliwyd. Mae gwefan yr Asiantaeth yn cynnwys data ar weithgarwch gorfodi ar gyfer holl awdurdodau lleol y DU a gellir dod o hyd iddi drwy: [www.food.gov.uk/enforcement/auditandmonitoring](http://www.food.gov.uk/enforcement/auditandmonitoring) – cliciwch ar 'Cymraeg'

Mae'r adroddiad hefyd yn cynnwys cynllun gweithredu, wedi'i baratoi gan yr awdurdod, i fynd i'r afael â chanfyddiadau'r archwiliad.

I'ch helpu, mae rhestr o dermau technegol a ddefnyddir yn yr adroddiad archwilio hwn ar gael yn Atodiad C.

## Cynnwys

1	Cyflwyniad .....	5
	Rheswm dros yr Archwiliad .....	5
	Cwmpas yr Archwiliad .....	6
	Cefndir .....	6
2	Crynodeb Gweithredol .....	9
	Canfyddiadau'r Archwiliad .....	13
3	Trefniadaeth a Rheolaeth .....	13
5	Swyddogion Awdurdodedig .....	18
6	Cyfleusterau ac Offer .....	20
7	Ymyriadau ac Arolygiadau mewn Sefydliadau Bwyd .....	22
	Hylendid Bwyd .....	22
	Safonau Bwyd .....	26
	Hylendid Bwyd .....	31
	Safonau Bwyd .....	31
9	Cynllun y Prif Awdurdod ac Egwyddor yr Awdurdod Cartref .....	33
10	Cyngor i Fusnesau .....	34
11	Cronfa Ddata Sefydliadau Bwyd .....	35
	Hylendid Bwyd .....	36
	Safonau Bwyd .....	37
13	Rheoli ac Ymchwilio i Achosion a Chlefydau Heintus sy'n Gysylltiedig â Bwyd .....	38
14	Digwyddiadau Diogelwch Bwyd .....	40
16	Cofnodion ac Adroddiadau Ymyriadau/Arolygiadau .....	45
	Hylendid Bwyd .....	45
	Safonau Bwyd .....	46
19	Monitro Mewnol .....	50
20	Adolygiad Trydydd Parti neu Adolygiad gan Gymheiriaid .....	52
21	Hyrwyddo Diogelwch a Safonau Bwyd .....	53
	Cynllun Gweithredu Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili .....	54
	Dull/Methodoleg yr Archwiliad .....	59
	Geirfa .....	65

## 1 Cyflwyniad

- 1.1 Mae'r adroddiad hwn yn cofnodi canlyniadau archwiliad hylendid a safonau bwyd yng Nghyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili o dan benawdau Safon Gorfodi Cyfraith Bwyd a Bwyd Anifeiliaid yr Asiantaeth Safonau Bwyd (ASB). Mae ar gael i'r cyhoedd ar wefan yr Asiantaeth drwy [www.food.gov.uk/enforcement/auditandmonitoring/auditreports](http://www.food.gov.uk/enforcement/auditandmonitoring/auditreports) – cliciwch ar 'Cymraeg'

### ***Rheswm dros yr Archwiliad***

- 1.2 Cafodd y pŵer i bennu safonau, monitro ac archwilio gwasanaethau gorfodi cyfraith bwyd a bwyd anifeiliaid awdurdodau lleol eu rhoi i'r ASB o dan Ddeddf Safonau Bwyd 1999 a Rheoliadau Rheolaethau Swyddogol ar Fwyd Anifeiliaid a Bwyd (Cymru) 2009. Cynhaliwyd yr archwiliad o wasanaethau bwyd yng Nghyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili dan adran 12(4) y Ddeddf a Rheoliad 7 y Rheoliadau.
- 1.3 Mae Rheoliad (CE) Rhif 882/2004 ar reolaethau swyddogol a gyflawnir i sicrhau y caiff cydymffurfiaeth â chyfraith bwyd a bwyd anifeiliaid ei gwirio yn cynnwys gofyniad i awdurdodau lleol (ALLau) gynnal archwiliadau mewnol, neu drefnu bod archwiliadau allanol yn cael eu cynnal. Diben yr archwiliadau hyn yw cadarnhau y caiff rheolaethau swyddogol yn ymwneud â chyfraith bwyd a bwyd anifeiliaid eu gweithredu'n effeithiol. I gyflawni'r gofyniad hwn, mae'r ASB, sef yr awdurdod cymwys canolog ar gyfer cyfraith bwyd a bwyd anifeiliaid yn y Deyrnas Unedig (DU), wedi pennu trefniadau archwilio allanol. Wrth lunio'r rhain, ystyriodd yr Asiantaeth ganllawiau'r Comisiwn Ewropeaidd (CE) ar sut y dylid cynnal archwiliadau o'r fath.<sup>1</sup>
- 1.4 Cynhaliwyd archwiliad o'r awdurdod fel rhan o raglen tair blynedd (2013 – 2016) o archwiliadau llawn o'r 22 awdurdod lleol yng Nghymru.

---

<sup>1</sup> Penderfyniad y Comisiwn ar 29 Medi 2006 yn nodi'r canllawiau sy'n amlinellu'r meini prawf ar gyfer cynnal archwiliadau o dan Reoliad (CE) Rhif 882/2004 Senedd Ewrop a'r Cyngor ar Reolaethau Swyddogol i gadarnhau cydymffurfiaeth â chyfraith bwyd a bwyd anifeiliaid, iechyd anifeiliaid a rheolau lles anifeiliaid (2006/677/CE).

## **Cwmpas yr Archwiliad**

- 1.5 Roedd yr archwiliad yn ymdrin â threfniadau Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili ar gyfer darparu gwasanaethau gorfodi hylendid bwyd a safonau bwyd. Cynhaliwyd elfen 'ar y safle' yr archwiliad yn swyddfeydd yr awdurdod yn Nhŷ Penallta, Ystrad Mynach, ar 18 – 22 Ionawr 2016, ac roedd yn cynnwys ymweliadau dilysu â busnesau bwyd i asesu effeithiolrwydd y rheolaethau swyddogol a weithredir gan yr awdurdod ac, yn fwy penodol, y gwiriadau a gynhelir gan swyddogion yr awdurdod, i ddilysu cydymffurfiaeth gweithredwyr busnesau bwyd â gofynion deddfwriaethol.
- 1.6 Roedd yr archwiliad hefyd yn gyfle i gael trafodaeth â swyddogion sy'n ymwneud â gorfodi cyfraith bwyd, gyda'r nod o archwilio materion allweddol a chael safbwyntiau i lywio polisi'r Asiantaeth.
- 1.7 Roedd yr archwiliad yn asesu cydymffurfiaeth yr awdurdod â'r "Safon". Mabwysiadwyd y Safon gan Fwrdd yr ASB ar 21 Medi 2000 (ac fe'i diwygiwyd am y pumed tro ym mis Ebrill 2010), ac mae'n ffurfio rhan o Gytundeb Fframwaith yr Asiantaeth ag awdurdodau lleol. Mae'r Cytundeb Fframwaith ar gael ar wefan yr Asiantaeth drwy [www.food.gov.uk/enforcement/enforcework/frameagree](http://www.food.gov.uk/enforcement/enforcework/frameagree) – cliciwch ar 'Cymraeg'

## **Cefndir**

- 1.8 Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili yn awdurdod unedol yn Ne Ddwyrain Cymru, sy'n cynnwys ardal o 28,000 o hectarau, a dyma'r awdurdod lleol mwyaf yng Nghymru ond tri. Mae'n ffinio â saith ardal awdurdod lleol arall – Caerdydd i'r De, Rhondda Cynon Taf a Merthyr Tudful i'r Gorllewin, Powys a Blaenau Gwent i'r Gogledd, a Chasnewydd a Thorfaen i'r Dwyrain.
- 1.9 Mae Caerffili yn ardal llwyr fewndirol, ac mae'n cynnwys ardal sy'n mynd o rannau uchaf y Cymoedd yn y Gogledd, ar hyd ffiniau hanesyddol Morgannwg a Sir Fynwy, tuag at goridor yr M4 sydd 40 cilomedr i'r De. Mae'r fwrdeistref sirol yn cynnwys dyffrynnoedd Afon Rhymni, Afon Sirhywi ac Afon Ebwy.

- 1.10 Mae Caerffili yn fwrdeistref sirol gymysg o ran ardaloedd gwledig ac ardaloedd dinesig, gyda thros 50 o drefi a phentrefi gwahanol wedi'u gwasgaru ymhlith ardaloedd o harddwch naturiol. Caerffili, y Coedduon, Trecelyn, Bargoed, Ystrad Mynach a Rhisga yw'r prif ardaloedd gweinyddol a masnachol.
- 1.11 Yn ôl cyfrifiad 2011, mae gan Gaerffili boblogaeth o 178,806 ac mae 98.4% o'r boblogaeth yn Wyn. Roedd dwysedd y boblogaeth yr uchaf ond tri yng Nghymru erbyn canol 2014. Er bod nifer y siaradwyr Cymraeg yn is na chyfartaledd Cymru, mae 16% o'r boblogaeth yn siarad, darllen, ysgrifennu neu'n deall Cymraeg.
- 1.12 Mae'r economi'n eang, ac mae gweithgynhyrchu, cyfanwerthu, masnachu a gweithgarwch iechyd a chymdeithasol yn rhannau sylweddol ohoni.
- 1.13 Mae lefelau amddifadedd Caerffili yn uwch na chyfartaledd Cymru gan fwyaf, fel y nodwyd ym Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru 2014, ac mae'n cynnwys yr ardaloedd mwyaf amddifad yng Nghymru. Serch hynny, nodir bod y fwrdeistref sirol yn well na'r cyfartaledd mewn perthynas â mynediad at wasanaethau a thai.
- 1.14 Roedd gwaith gorfodi cyfraith hylendid bwyd yn cael ei gyflawni gan swyddogion yn nhîm Diogelwch Bwyd, Iechyd a Diogelwch a Chlefydau Trosglwyddadwy yn adran Iechyd yr Amgylchedd sydd o fewn adran Diogelu'r Cyhoedd yr awdurdod. Roedd gwaith gorfodi safonau bwyd yn cael ei gyflawni gan swyddogion Safonau Masnach a Thrwyddedu yn adran Diogelu'r Cyhoedd yr awdurdod.
- 1.15 Roedd swyddogion a staff cynorthwyol a oedd yn gyfrifol am hylendid bwyd a safonau bwyd wedi'u lleoli yn Nhŷ Penallta, Ystrad Mynach, Hengoed CF82 7PG.
- 1.16 Nododd yr awdurdod fod ganddo wasanaeth brys y tu allan i oriau 24 awr. Ni phrofwyd y gwasanaeth y tu allan i oriau fel rhan o'r archwiliad.
- 1.17 Ddechrau 2015/16, roedd oddeutu 1,700 o sefydliadau bwyd yng Nghaerffili. Yn ogystal, roedd naw sefydliad bwyd cymeradwy.
- 1.18 Roedd gan yr awdurdod 6.5 swyddog Cyfwerth ag Amser Llawn a oedd yn rhan o gyflawni dyletswyddau hylendid bwyd. O ran safonau bwyd,

dywedodd yr awdurdod fod ganddo 3.3 swyddog Cyfwerth ag Amser Llawn. Roedd gan y gwasanaeth hylendid bwyd 1 swydd Cyfwerth ag Amser Llawn wag dros dro o achos cyfnod mamolaeth.

- 1.19 Roedd yr awdurdod yn darparu cyfleoedd Datblygiad Proffesiynol Parhaus i swyddogion ar gyfer yn eu maes gwaith. Roedd cyllid hyfforddi ar gael, ac roedd hwn yn cael ei gadw o flwyddyn i flwyddyn.
- 1.20 Y cyllid blynyddol ar gyfer gwaith gorfodi cyfraith bwyd a gweithgarwch cysylltiedig oedd £541,778 yn 2015/16. Roedd hyn yn dangos ychydig o gynnydd ar wariant 2014/15.
- 1.21 Mae'r awdurdod wedi bod yn cymryd rhan yn y Cynllun Sgorio Hylendid Bwyd Cenedlaethol a lanswyd yng Nghymru ym mis Hydref 2010. Adeg yr archwiliad, roedd sgoriau hylendid bwyd 1,236 o sefydliadau bwyd ym Mwrdeistref Sirol Caerffili ar gael i'r cyhoedd ar wefan y Cynllun Sgorio Hylendid Bwyd Cenedlaethol.



## 2 Crynodeb Gweithredol

- 2.1 Archwiliwyd trefniadau Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili ar gyfer cyflenwi rheolaethau bwyd swyddogol. Roedd hyn yn cynnwys gwiriadau go iawn mewn sefydliadau er mwyn asesu effeithiolrwydd y rheolaethau swyddogol, ac yn fwy penodol, y mesurau a gynhaliwyd gan swyddogion yr awdurdod, er mwyn gwirio cydymffurfiaeth gweithredwyr busnesau bwyd â gofynion deddfwriaethol. Roedd cwmpas yr archwiliad hefyd yn cynnwys asesiad o drefniadaeth a rheolaeth gyffredinol yr awdurdod, a gwaith monitro gweithgarwch gorfodi cyfraith bwyd yn fewnol.
- 2.2 Pennaeth Diogelu'r Cyhoedd oedd â'r cyfrifoldeb cyffredinol ar gyfer cyflawni gwasanaethau gorfodi cyfraith bwyd. Roedd y gwasanaeth hylendid bwyd yn cael ei gyflawni gan y tîm Diogelwch Bwyd, Iechyd a Diogelwch a Chlefydau Trosglwyddadwy o fewn Adran Iechyd yr Amgylchedd, ac roedd y gwasanaeth safonau bwyd yn cael ei gyflawni o fewn yr adran Safonau Masnach a Thrwyddedu.
- 2.3 Roedd y Cynllun Gwasanaeth ar gyfer gorfodi cyfraith bwyd a ddatblygwyd gan yr awdurdod yn bennaf yn unol â chanllawiau'r ASB. Roedd yr awdurdod wedi darparu ei raglenni gwaith am y flwyddyn, wedi nodi'r adnoddau gofynnol ar gyfer eu cyflawni ac wedi adolygu ei berfformiad yn erbyn perfformiad y flwyddyn flaenorol. Nodwyd ac esboniwyd nifer o amrywiadau o ran cyflawni'r targedau, ond ni aethpwyd i'r afael ag amrywiadau mewn perthynas â sefydliadau bwyd risg isel mewn modd clir.
- 2.4 Roedd gan yr awdurdod drefniadau ar waith er mwyn sicrhau bod swyddogion wedi'u hawdurdodi'n briodol yn cyflawni gwasanaeth effeithiol, ac roedd angen diwygio'r trefniadau er mwyn sicrhau y caiff swyddogion safonau bwyd eu hawdurdodi dan yr holl ddeddfwriaeth ofynnol. Roedd y swyddogion wedi'u hawdurdodi yn unol â'u cymwysterau, eu hyfforddiant a'u profiad. Nodwyd 'rhoi mynediad i swyddogion safonau bwyd at nifer o byrth gwybodaeth' fel maes o arfer da.
- 2.5 Roedd gweithdrefn waith gofnodedig wedi'i datblygu er mwyn sicrhau cywirdeb cronfa ddata sefydliadau bwyd yr awdurdod. Cadarnhaodd gwiriadau archwilio fod y gronfa ddata hylendid bwyd a safonau bwyd yn

gywir ar y cyfan a bod yr awdurdod wedi llwyddo i ddarparu ffurflen electronig ar gyfer y System Monitro Trefniadau Gorfodi Awdurdodau Lleol (LAEMS). Roedd yr awdurdod wedi bod yn rhan o brosiect ar y cyd er mwyn cael meddalwedd Diogelu'r Cyhoedd newydd i'w ddefnyddio gan awdurdodau lleol ar draws Cymru, er mwyn gwella cysondeb a gwerth am arian.

- 2.6 Cadarnhaodd gwiriadau o'r cofnodion a'r gronfa ddata bod y gwasanaeth hylendid bwyd wedi cyflawni'r amlderau arolygu gofynnol mewn sefydliadau cymeradwy a risg uwch. Nid oedd rhai sefydliadau risg is yn cael eu harolygu yn ôl yr amlderau gofynnol yn ôl y Cod Ymarfer Cyfraith Bwyd a chanllawiau a gyhoeddir yn ganolog. Roedd gan y gwasanaeth safonau bwyd ddull tebyg a oedd yn seiliedig ar risg, lle cawsai sefydliadau risg uwch eu blaenoriaethu i'w harolygu. Roedd nifer sylweddol o sefydliadau risg is a chanolig yn hwyr yn cael ymyriad safonau bwyd.
- 2.7 Nid oedd cofnodion arolygu yn dangos y cynhaliwyd asesiadau trylwyr o gydymffurfiaeth y busnes bob tro yn ystod arolygiadau safonau bwyd nac ar gyfer pob agwedd ar hylendid bwyd. Nid oedd ymyriadau mewn sefydliadau risg is wedi'u cyflawni'n unol â'r Cod Ymarfer Cyfraith Bwyd yn gyffredinol. Ar y cyfan, roedd sgorio risg, ailymweliadau a champau dilynol yn cael eu cyflawni fel sy'n ofynnol ar gyfer gwasanaethau hylendid bwyd a safonau bwyd.
- 2.8 Roedd cofnodion ac adroddiadau arolygiadau hylendid bwyd yn cael eu cynnal yn briodol gan yr awdurdod. Roedd adroddiadau safonau bwyd yn cynnwys rhywfaint, ond nid yr holl wybodaeth, sy'n ofynnol yn ôl y Cod Ymarfer Cyfraith Bwyd. Byddant yn elwa ar eu gwella i gynnwys y camau sydd angen i'r awdurdod eu cymryd, a nodi amserlenni ar gyfer cydymffurfio.
- 2.9 Yn gyffredinol, roedd cwynion am fwyd a sefydliadau bwyd, ymyriadau samplu bwyd, hysbysiadau o glefydau heintus sy'n gysylltiedig â bwyd ac ymyriadau digwyddiadau bwyd wedi'u cyflawni yn unol â'r Cod Ymarfer Cyfraith Bwyd. Serch hynny, nid oedd hysbysiadau am campylobacter wedi'u harchwilio'n briodol bob tro.
- 2.10 Roedd yr awdurdod wedi bod yn rhagweithiol wrth ddarparu cyngor a chanllawiau i fusnesau bwyd yn ei ardal, ac wrth gyflawni gweithgarwch

hyrwyddo. Roedd y cydweithio rhwng swyddogion hylendid bwyd a safonau bwyd ac adran caffael bwyd yr awdurdod, ynghyd â'r defnydd o gyfryngau cymdeithasu i hyrwyddo'r Cynllun Sgorio Hylendid Bwyd a rhybuddion bwyd, wedi'u nodi fel meysydd o arfer da.

2.11 Roedd yr awdurdod wedi defnyddio ystod o ddulliau gorfodi er mwyn sicrhau bod busnesau'n cydymffurfio'n well â deddfwriaeth hylendid bwyd, ac roedd y gwasanaeth safonau bwyd wedi cyflawni ymchwiliad ac erlyniad ar raddfa fawr mewn perthynas ag atchwanegiadau bwyd (*supplements*).

2.12 Roedd rhywfaint o dystiolaeth o waith monitro mewnol mewn perthynas â'r gwasanaethau hylendid a safonau bwyd. Bydd datblygu a chyflwyno gweithdrefnau monitro mewnol yr awdurdod ymhellach yn gwella'r broses.

## 2.13 Cryfderau'r Awdurdod

### **Adroddiadau Ymyriadau / Arolygiadau Hylendid Bwyd**

Roedd yr adroddiadau ymyriadau/arolygiadau a ddarparwyd i weithredwyr busnesau bwyd yn cynnwys yr holl wybodaeth sy'n ofynnol yn ôl y Cod Ymarfer Cyfraith Bwyd.

### **Cwynion am Fwyd a Sefydliadau Bwyd**

Roedd yr awdurdod wedi ymateb i gwynion bwyd a chwynion am sefydliadau bwyd yn unol â'u gweithdrefnau a chanllawiau a gyhoeddi yn ganolog, gan gymryd camau gweithredu priodol mewn ymateb i ganfyddiadau'r ymchwiliadau.

### **Cyngor i Fusnesau**

Roedd yr awdurdod wedi bod yn rhagweithiol, ac roedd yn gallu dangos ei fod yn gweithio â busnesau er mwyn eu helpu i gydymffurfio â'r gyfraith. Roedd wedi cyflwyno nifer o fentrau gyda'r nod o hyrwyddo hylendid a safonau bwyd.

### **Cronfa Ddata o Sefydliadau Bwyd**

Roedd yr awdurdod wedi cynnal a chadw ei gronfa ddata sefydliadau bwyd, ac roedd yn gallu rhoi'r wybodaeth gywir i'r ASB.

### **Samplu Hylendid Bwyd**

Roedd yr awdurdod yn gallu dangos ei fod wedi cymryd y camau gweithredu priodol yn gyson mewn ymateb i samplau bwyd anfoddfaol.

### **Cyswllt**

Roedd gan yr awdurdod drefniadau cadarn ar waith i gydweithio ag awdurdodau lleol cyfagos a chyrrff priodol eraill er mwyn hwyluso gorfodi cyson. Roedd ei drefniadau cydweithio er mwyn caffael system feddalwedd Diogelu'r Cyhoedd newydd ar gyfer Cymru, a gwaith o fewn yr awdurdod o ran caffael bwyd, yn gamau cadarnhaol er mwyn sicrhau gwasanaeth cyson a gwella safonau hylendid bwyd drwy ei bwerau prynu.

## **2.14 Meysydd Allweddol mae gofyn i'r Awdurdod Wella arnynt**

### **Awdurdodiadau Swyddogion**

Mae angen diwygio gweithdrefnau awdurdodi'r awdurdod er mwyn sicrhau y caiff awdurdodiadau swyddogion safonau bwyd eu cyflawni dan y ddeddfwriaeth ofynnol.

### **Amllder Ymyriadau Hylendid Bwyd a Safonau Bwyd**

Nid oedd yr awdurdod wedi cynnal ymyriadau hylendid bwyd risg is a safonau bwyd risg is a chanolig ar y raddfa sy'n ofynnol yn y Cod Ymarfer Cyfraith Bwyd. Mae ymyriadau a gynhelir ar yr amllder gofynnol yn sicrhau bod risgiau sy'n gysylltiedig â busnesau bwyd yn cael eu hamlygu ac y caiff camau dilynol eu cymryd mewn modd amserol.

### **Arolygiadau ac Ymyriadau Sefydliadau Safonau Bwyd**

Nid oedd gwybodaeth a gasglwyd gan swyddogion yn ystod ymyriadau bob amser yn ddigon manwl i ddangos bod cydymffurfiaeth busnesau wedi'i asesu'n drylwyr ar gyfer pob prif agwedd.

### **Adroddiadau Ymyrryd/Arolygu Safonau Bwyd**

Nid oedd adroddiadau ymyriadau/arolygiadau safonau bwyd a ddarparwyd i weithredwyr busnesau bwyd yn cynnwys yr holl wybodaeth sy'n ofynnol yn ôl y Cod Ymarfer Cyfraith Bwyd.

## Canfyddiadau'r Archwiliad

### 3 Trefniadaeth a Rheolaeth

*Fframwaith strategol, polisi a mesurau cynllunio gwasanaeth*

- 3.1 Roedd gorfodi cyfraith bwyd yn cael ei oruchwylio gan yr Aelod Cabinet dros Wasanaethau Cymunedol a Hamdden. Roedd Cyfansoddiad yr awdurdod yn nodi ei drefniadau ar gyfer gwneud penderfyniadau. Dan y Cyfansoddiad, mae'r penderfyniadau ar y mwyafrif o faterion gweithredol wedi'u dirprwyo i Bennaeth Diogelu'r Cyhoedd.
- 3.2 Roedd yr awdurdod wedi datblygu Cynllun Gwasanaeth Gorfodi Bwyd 2015/2016 ('y Cynllun Gwasanaeth'). Roedd tystiolaeth bod y Cynllun Gwasanaeth wedi'i gymeradwyo gan yr Aelod Cabinet ac roedd ar gael ar wefan yr awdurdod. Roedd rhagor o wybodaeth ar safonau bwyd yn y 'Cynllun Safonau Masnach y Tîm Gwasanaethau Masnachol 2015/16'.
- 3.3 Roedd y Cynllun Gwasanaeth yn cynnwys y rhan fwyaf o'r wybodaeth a amlinellwyd yng Nghanllawiau Cynllunio Gwasanaeth y Cytundeb Fframwaith, gan gynnwys proffil o'r awdurdod, strwythur y sefydliad a chwmpas y gwasanaeth. Roedd yr amseroedd gweithredu, y manau darparu gwasanaeth a nodau ac amcanion y gwasanaeth wedi'u nodi'n glir.
- 3.4 Roedd y Cynllun Gwasanaeth yn dangos bod oddeutu 1,700 o sefydliadau bwyd yng Nghaerffili, a rhoddwyd dadansoddiad yn ôl y math o sefydliad.
- 3.5 Mewn perthynas â hylendid bwyd, darparwyd proffil risg y sefydliadau ynghyd â'r nifer o ymyriadau sydd ar y gweill. Darparwyd yr wybodaeth ganlynol yn y Cynllun Gwasanaeth:

## Ymyriadau wedi'u Sgorio ar Risg

Categori	Amllder	Cyfanswm nifer y safleoedd	Ymyriadau sydd ar y gweill
A	6 mis	6	12
B	12 mis	63	63
C	18 mis	694	427
<b>Cyfanswm 'risg uchel'</b>		<b>763</b>	<b>502</b>
D	2 flynedd	248	144
E	Strategaeth Orfodi Amgen neu ymyriadau bob tair blynedd	478	207
Tu allan i gwmpas y rhaglen		212	
Heb sgôr		25	25
Amcangyfrifiad o ailymweliadau			300
Ymweliadau Prosiect Rheoli Diogelwch Bwyd		19	19
Prosiect Meithrinfeydd ID		26	26
<b>Cyfanswm 'arall'</b>		<b>1008</b>	<b>721</b>
<b>Cyfanswm</b>		<b>1771</b>	<b>1223</b>

- 3.6 Mae'r targedau a'r blaenoriaethau ar gyfer hylendid bwyd wedi'u nodi yn y Cynllun Gwasanaeth, a gwnaed ymrwymiad i gyflawni'r holl arolygiadau/ymyriadau sydd ar y gweill mewn sefydliadau risg uwch.
- 3.7 Mewn perthynas â sefydliadau risg is, roedd y Cynllun Gwasanaeth yn datgan y byddant yn derbyn un ai arolygiad neu byddant yn destun gweithgarwch gorfodi amgen; ill dau yn unol â'r Cod Ymarfer Cyfraith Bwyd.
- 3.8 Roedd nifer sylweddol o sefydliadau bwyd risg is a oedd yn hwyr yn derbyn ymyriad. Roedd nifer o'r rhain wedi'u rhaglennu ar gyfer ymyriad yn ystod y flwyddyn flaenorol, ac nid oeddent wedi'u nodi'n glir yn y rhaglen gyfredol.

### 3.9 Darparwyd yr wybodaeth ganlynol o ran safonau bwyd:

Proffil risg	Amllder	Nifer y safleoedd	Arolygiadau sydd ar y gweill
Uchel	12 mis	15	15
Canolig	24 mis	689	302
Isel	60 mis	819	487
Heb sgôr		142	142
Ailymweliadau			
<b>Cyfanswm</b>		<b>1665</b>	<b>946</b>

- 3.10 Roedd yr adolygiad yn erbyn Cynllun Gwasanaeth y flwyddyn flaenorol wedi nodi nifer sylweddol o sefydliadau risg is a risg ganolig a oedd yn hwyr yn derbyn ymyriad. Nid oedd y rhain wedi'u nodi'n glir yn y rhaglen ymyriadau.
- 3.11 Roedd y targedau a'r blaenoriaethau ar gyfer safonau bwyd yn cynnwys ymrwymiad i gyflawni'r holl arolygiadau / ymyriadau sydd ar y gweill mewn sefydliadau risg uwch, ac mewn sefydliadau risg ganolig lle bo hynny'n bosibl. Byddai sefydliadau risg is yn derbyn math arall o ymyriad.
- 3.12 Roedd blaenoriaethau a thargedau ymyrryd yr awdurdod yn y Cynllun Gwasanaeth yn seiliedig ar risg.
- 3.13 Nodwyd yr adnoddau oedd ar gael i gyflawni gwasanaethau gorfodi cyfraith bwyd yn y Cynllun Gwasanaeth fel 6.5 swyddog Cyfwerth ag Amser Llawn ar gyfer hylendid bwyd, a 3.3 swyddog Cyfwerth ag Amser Llawn ar gyfer safonau bwyd. Darparwyd dadansoddiad o lefelau gwahanol y swyddogion oedd ar gael.
- 3.14 Roedd yr awdurdod wedi nodi'r galw tebygol ar gyfer y mwyafrif o agweddau'r gwasanaethau bwyd, ac wedi amcangyfrif yr adnoddau sydd eu hangen er mwyn cyflawni'r ystod lawn o reolaethau bwyd swyddogol yn erbyn y rheiny oedd ar gael.
- 3.15 Roedd y Cynllun Gwasanaeth yn cynnwys gwybodaeth am Bolisi Gorfodi'r awdurdod a'i ddull o ddatblygu staff. Pwysleisiwyd yr angen i gyflawni nifer o arolygiadau a raglennir tu allan i oriau.

- 3.16 Roedd yr awdurdod yn cefnogi busnesau drwy ei ymrwymiad i Gynllun y Prif Awdurdod ac Egwyddor yr Awdurdod Cartref. Roedd y Cynllun Gwasanaeth hefyd yn nodi dulliau eraill y byddai'n eu defnyddio i sicrhau bod busnesau yn gwbl ymwybodol o'u rhwymedigaethau cyfreithiol.
- 3.17 Roedd trefniadau ar gyfer monitro mewnol neu '*asesu ansawdd*' wedi'u hamlinellu yn y Cynllun Gwasanaeth ac roeddent yn cynnwys monitro nifer ac ansawdd yr arolygiadau, adroddiadau arolygu a chamau gorfodi.
- 3.18 Roedd y gost gyffredinol o ddarparu gwasanaethau gorfodi cyfraith bwyd wedi'i nodi yn y Cynllun Gwasanaeth. Amlygodd yr archwilyr yr angen i gynnwys tueddiadau tyfiant neu ostyngiad, a dadansoddiad o'r costau nad ydynt yn sefydlog megis staffio, teithio a chynhaliaeth, offer (gan gynnwys buddsoddi mewn TGCh) a chyfeiriad at y ddarpariaeth ariannol adrannol ar gyfer gweithredu cyfreithiol.
- 3.20 Amlinellodd y Cynllun Gwasanaeth sut y byddai perfformiad yr awdurdod o ran cynnal rheolaethau swyddogol bwyd yn cael ei adolygu yn erbyn cynllun y flwyddyn flaenorol a'r adroddiad diweddaraf yn y Cynllun Gwasanaeth.
- 3.21 Nodwyd rhai amrywiaethau yng Nghynllun Gwasanaeth 2015/16 o ran cyflawni'r targedau a osodwyd yn y Cynllun blaenorol. Serch hynny, ni nodwyd yr amrywiad wrth gyflawni ymyriadau hylendid bwyd mewn sefydliadau risg is (Categori D ac E) fel amrywiad.
- 3.22 Roedd yr awdurdod wedi ymgorffori nifer o feysydd i wella arnynt yn ei Gynllun Gwasanaeth 2015/16 yn seiliedig ar ei adolygiad yn erbyn cynllun y flwyddyn flaenorol.

***Argymhellion***

- 3.23 Dylai'r awdurdod:
- (i) Sicrhau y caiff amrywiadau mewn perthynas ag ymyriadau sefydliadau hylendid bwyd risg is eu nodi yn y Cynllun Gwasanaeth. [Y Safon – 3.1]



#### **4 Adolygu a Diweddarau Polisiâu a Gweithdrefnau Cofnodedig**

- 4.1 Roedd gweithdrefnau rheoli dogfennau yn bodoli ar gyfer y gwasanaethau hylendid bwyd a safonau bwyd. Roedd y gweithdrefnau'n cynnwys rheoli o ran cynhyrchu, cymeradwyo, adolygu, diweddarau a storio polisiâu, gweithdrefnau a dogfennau cysylltiedig.
- 4.2 Roedd y dogfennau wedi'u storio'n electronig ac ar gopi caled. Roedd dogfennau electronig wedi'u diogelu rhag mynediad anawdurdodedig.
- 4.3 Roedd rheolwyr yn gyfrifol am ddatblygu, adolygu a chymeradwyo dogfennau. Roedd caniatâd i wneud newidiadau i'r rhestr o ddogfennau neu ddogfennau unigol wedi'i gyfyngu i unigolion enwebedig. Roedd unigolion enwebedig hefyd yn gyfrifol am sicrhau y caiff hen ddogfennau eu tynnu oddi yno.
- 4.4 Roedd archwilwyr yn gallu cadarnhau bod polisiâu a gweithdrefnau, deddfwriaeth a chanllawiau a gyhoeddir yn ganolog ar gael un ai yn electronig neu ar gopi caled i swyddogion.

#### **Arfer da – Argaeledd cyngor technegol**

Rhoddwyd mynediad i swyddogion safonau bwyd at nifer o byrth gwybodaeth. Roedd y rhain yn cynnwys gwybodaeth am ddeddfwriaeth a gorfodi, ynghyd â mynediad at arbenigedd technegol drwy aelodaeth â sefydliad ymchwil.

- 4.5 Roedd pob dogfen wedi'i hadolygu yn unol â'r gweithdrefnau, ac ni chanfuwyd bod unrhyw hen ddogfennau'n cael eu defnyddio.

## **5 Swyddogion Awdurdodedig**

- 5.1 Roedd Cynllun yr awdurdod o Ddirprwyo Pwerau i Swyddogion yn rhoi pwerau dirprwyedig i Bennaeth Diogelu'r Cyhoedd gyda phwerau mynediad a phwerau gweithredu ar gyfer yr holl ddyletswyddau mewn perthynas â gwasanaethau hylendid bwyd a safonau bwyd. Rhoddwyd pwerau i Bennaeth Diogelu'r Cyhoedd hefyd i awdurdodi swyddogion eraill ac i awdurdodi achosion cyfreithiol.
- 5.2 Datblygwyd gweithdrefnau cofnodedig ar gyfer awdurdodi swyddogion yn seiliedig ar eu cymwysterau o ran hylendid bwyd, rheoli clefydau heintus a safonau bwyd. Dogfennwyd y broses o asesu cymhwysedd, ac roedd hyn yn ffurfio rhan o'r dystysgrif awdurdodi.
- 5.3 Roedd swyddogion arweiniol wedi'u penodi ar gyfer hylendid bwyd, safonau bwyd, a chlefydau trosglwyddadwy, ac roedd pob un ohonynt yn meddu ar y cymwysterau a'r hyfforddiant angenrheidiol, ac yn gallu dangos bod ganddynt wybodaeth briodol.
- 5.4 Roedd gan yr awdurdod systemau ar waith er mwyn nodi anghenion hyfforddi swyddogion, gan gynnwys adolygiadau datblygu perfformiad, gweithgarwch monitro mewnol a thrafodaethau o fewn cyfarfodydd tîm. Roedd cynllun hyfforddi cofnodedig ar gael i swyddogion hylendid bwyd. Darparwyd hyfforddiant mewnol ac allanol i swyddogion, a gwnaed defnydd da o'r cyfleoedd a gynigiwyd gan raglen hyfforddi awdurdodau lleol yr ASB. Roedd gofyn i'r holl swyddogion gyflawni deg awr o ddatblygiad proffesiynol parhaus, yn unol â'r Cod Ymarfer Cyfraith Bwyd. Roedd cyllideb hyfforddi ar gael i gefnogi datblygiad swyddogion.
- 5.5 Cynhaliwyd archwiliad o gofnodion cymwysterau a hyfforddiant chwe swyddog a oedd yn rhan o gyflawni rheolaethau swyddogol ar hylendid bwyd, a phedwar swyddog sy'n rhan o gyflawni rheolaethau swyddogol ar safonau bwyd. Lle'r oedd cofnodion ar gael, roeddent yn cael eu cadw gan yr awdurdod mewn ffeiliau copi caled ac yn electronig.
- 5.6 Roedd awdurdodiadau swyddogion hylendid bwyd wedi'u diwygio'n ddiweddar, a chanfuwyd bod pob un wedi'u hawdurdodi'n gywir dan y ddeddfwriaeth briodol. Roedd pwerau swyddogion unigol wedi'u cyfyngu'n briodol lle'r oedd angen. Roedd swyddogion safonau bwyd wedi'u hawdurdodi dan rywfaint o'r ddeddfwriaeth ofynnol, ac roedd eu pwerau wedi'u cyfyngu lle bo'n briodol. Serch hynny, roedd nifer o

statudau sydd angen awdurdodiad penodol wedi'u hepgor. Roedd yr awdurdod wedi trefnu bod yr ASB yn awdurdodi nifer addas o swyddogion dan y Ddeddf Bwyd a Diogelu'r Amgylchedd 1995.

- 5.7 Rhoddodd yr awdurdod dystiolaeth o awdurdodiadau swyddogion a oedd yn cyd-fynd â'u cymwysterau ym mhob achos.
- 5.8 Roedd pob swyddog wedi derbyn y lleiafswm o ddeg awr o ddatblygiad proffesiynol parhaus sy'n ofynnol yn ôl y Cod Ymarfer Cyfraith Bwyd a pholisïau'r awdurdod ei hun. At hynny, roedd yr holl swyddogion wedi derbyn yr hyfforddiant angenrheidiol i gyflawni agweddau technegol y gwaith yr oeddent yn rhan ohono. Serch hynny, nododd yr archwilwyr nad oedd cofnodion hyfforddi llawn un swyddog safonau bwyd ar gael.

### **Argymhellion**

- 5.9 Dylai'r awdurdod:
- (i) Sicrhau y caiff swyddogion safonau bwyd eu hawdurdodi dan yr holl ddeddfwriaeth briodol. [Y Safon – 5.1]
  - (ii) Cadw cofnodion o hyfforddiant a phrofiad perthnasol pob swyddog safonau bwyd awdurdodedig yn unol â'r Cod Ymarfer Cyfraith Bwyd. [Y Safon – 5.5]

## **6 Cyfleusterau ac Offer**

- 6.1 Roedd gan yr awdurdod yr holl adnoddau a'r offer angenrheidiol sy'n ofynnol er mwyn cyflawni gwasanaethau hylendid bwyd a safonau bwyd yn effeithiol, ac roeddent wedi'u storio'n briodol ac yn hygyrch i'r swyddogion perthnasol.
- 6.2 Roedd gweithdrefnau cynnal a chadw offer ar wahân wedi'u datblygu ar gyfer y gwasanaethau hylendid bwyd a safonau bwyd. Roedd y weithdrefn hylendid bwyd hon yn cynnwys rhagnodi, ac yn manylu ar y trefniadau ar gyfer sicrhau bod cyfarpar, megis thermomedrau, yn cael eu nodi'n gywir, eu hasesu er mwyn sicrhau eu cywirdeb a'u taflu os oeddent yn ddiffygiol. Cyfeiriodd y weithdrefn at brofi, gan gynnwys gwiriadau mewnol, ynghyd â'r camau i'w cymryd os eir heibio lefelau goddefiant.
- 6.3 Roedd y swyddogion wedi'u darparu â thermomedrau a oedd yn cael eu graddnodi drwy ddefnyddio thermomedr a oedd wedi'i raddnodi mewn labordy. Câi'r offer a roddwyd i swyddogion ei raddnodi o leiaf unwaith y flwyddyn. Roedd yr awdurdod yn cynnal cofnodion graddnodi.
- 6.4 Cadarnhaodd archwiliad o'r cofnodion yn ymwneud â'r gwiriadau graddnodi diweddaraf bod pob un o fewn y lefelau goddefiant.
- 6.5 Roedd yr awdurdod yn cynnal gwiriadau tymheredd ar offer storio bwyd wedi'i oeri, a oedd wedi llywio penderfyniad i newid rhywfaint o'r offer yn ddiweddar.
- 6.6 Roedd cronfeydd data sefydliadau bwyd yr awdurdod yn cynnwys yr wybodaeth sy'n ofynnol gan yr ASB. Cynhaliwyd nifer o wiriadau yn ystod yr archwiliad a gadarnhaodd fod cronfeydd data yr awdurdod yn galluogi adroddiadau cywir.
- 6.7 Roedd copïau wrth gefn yn cael eu cadw'n rheolaidd o gronfeydd data sefydliadau, ynghyd â dogfennau electronig eraill a ddefnyddiwyd mewn perthynas â gwasanaethau gorfodi cyfraith bwyd, fel nad oedd data'n cael ei golli.
- 6.8 Roedd gan yr awdurdod systemau ar waith i sicrhau parhad busnes a lleihau niwed drwy atal neu leihau effaith digwyddiadau diogelwch. Mewn perthynas â gwasanaethau gorfodi cyfraith bwyd, roedd

swyddogion wedi cael cyfrineiriau unigol ac roedd mynediad cyfyngedig ar gyfer cofnodi a dileu data ar sail unigol. Roedd protocolau mewnbynnu data hefyd ar waith, a thrafodwyd unrhyw faterion yn ystod cyfarfodydd tîm er mwyn sicrhau cysondeb.

- 6.9 Roedd yr awdurdod wedi cytuno i adolygu cronfa ddata newydd, cronfa y mae awdurdodau lleol ledled Cymru yn bwriadu ei mabwysiadu er mwyn gwella cysondeb wrth reoli data gwasanaethau Diogelu'r Cyhoedd, a sicrhau gwell gwerth am arian.

## 7 Ymyriadau ac Arolygiadau mewn Sefydliadau Bwyd

### *Hylendid Bwyd*

- 7.1 Yn 2014/15 hysbysodd yr awdurdod drwy'r system LAEMS bod 86% o'r 1,705 o sefydliadau bwyd yng nghategori A i E a oedd yn disgwyl arolygiad wedi'u harolygu. At hynny, roedd 95% o'r busnesau bwyd yn 'cydymffurfio i raddau helaeth' gyda chyfraith hylendid bwyd (ac eithrio busnesau heb eu sgorio a'r rheiny nad ydynt yng nghwmpas y cynllun sgorio risg). Roedd hyn yn cynrychioli gwelliant o tua 3% o 92% o fusnesau y cofnodwyd eu bod yn 'cydymffurfio i raddau helaeth' yn y flwyddyn flaenorol.
- 7.2 Roedd yr awdurdod wedi datblygu gweithdrefnau cofnodedig er mwyn sefydlu dull unffurf o gyflawni ymyriadau ac ailymweliadau hylendid bwyd. Roedd gweithdrefnau hefyd ar waith ar gyfer ymyriadau mewn sefydliadau cymeradwy. Cadarnhaodd archwiliad o'r gweithdrefnau hyn fod pob un ohonynt yn cyfeirio at ddeddfwriaeth berthnasol, eu bod wedi'u hadolygu'n ddiweddar, a'u bod yn cyd-fynd â gofynion y Cod Ymarfer Cyfraith Bwyd a chanllawiau perthnasol a gyhoeddir yn ganolog. Roedd yr awdurdod hefyd wedi mabwysiadu canllawiau a gynhyrchwyd gan yr ASB yng Nghymru ar y cyd â Phanel Arbenigwyr Diogelwch Bwyd Penaethiaid Iechyd y Cyhoedd Cymru mewn perthynas ag amlygu sefydliadau sy'n peri pryder.
- 7.3 Dangosodd yr wybodaeth a ddarparwyd yn ystod yr archwiliad bod yr awdurdod wedi mabwysiadu dull sy'n seiliedig ar risg er mwyn rheoli ei raglen ymyriadau hylendid bwyd. Roedd yr awdurdod wedi rhoi gwybod drwy system LAEMS bod yr holl sefydliadau o fewn categori A-C wedi derbyn ymyriad o fewn 28 diwrnod o'r dyddiad a nodwyd yn unol â'r Cod Ymarfer Cyfraith Bwyd.
- 7.4 Nodwyd nifer o sefydliadau a oedd yn hwyr yn derbyn ymyriad. Roedd y rhain yn cynnwys 58 o sefydliadau yng nghategori D, a 100 o sefydliadau yng nghategori E. Nododd yr awdurdod hefyd bod 7 sefydliad masnachu nad oeddent wedi derbyn sgôr eto, a 252 o sefydliadau a oedd tu allan i gwmpas y rhaglen.
- 7.5 Roedd yr awdurdod wedi datblygu ffurflen *aide-memoire* ar gyfer arolygiadau hylendid bwyd er mwyn helpu swyddogion wrth arolygu busnesau bwyd. Roedd y ffurflen wedi'i diwygio'n ddiweddar er mwyn

annog swyddogion i gofnodi gwybodaeth mewn perthynas â'u hasesiad o effeithiolrwydd mesurau i reoli croeshalogi.

- 7.6 Cyflawnwyd archwiliad o gofnodion ymyriadau hylendid bwyd mewn perthynas â deg sefydliad bwyd. Cadarnhaodd archwilwyr eu bod, yn ystod y blynyddoedd diwethaf, wedi archwilio pob sefydliad ond un ar yr amllder gofynnol yn ôl y Cod Ymarfer Cyfraith Bwyd. Yn yr achos arall, roedd sefydliad Categori C fis yn hwyr yn derbyn ymyriad. Mae'n ofynnol o dan y Cod Ymarfer Cyfraith Bwyd bod ymyriadau'n cael eu cynnal o fewn 28 diwrnod o'r dyddiad a nodwyd.
- 7.7 Ym mhob achos, roedd ffeiliau'r sefydliadau yn cynnwys copi cyfredol o ffurflen gofrestru y gweithredwr busnes bwyd cyfredol. Serch hynny, nid oedd y ffurflen gofrestru bwyd wedi'i stampio â'r dyddiad derbyn ym mhump o'r deg ffeil, yn groes i weithdrefn yr awdurdod.
- 7.8 Roedd cofnodion arolygu ar gael ac yn ddealladwy ar gyfer y deg sefydliad bwyd a archwiliwyd, a chasglwyd digon o wybodaeth i alluogi archwilwyr i wirio bod y swyddogion wedi ystyried maint, graddfa a chwmpas gweithrediadau'r busnes. Roedd gwybodaeth am gyflenwyr a chwsmeriaid mewn perthynas ag olrhain wedi'i gofnodi ym mhob achos lle'r oedd yn briodol.
- 7.9 Ym mhob achos ond un, roedd lefel y manylion a gofnodwyd ar ffurflenni *aide-memoire* yn briodol er mwyn gallu gwirio bod yr awdurdid wedi cynnal asesiadau trylwyr o gydymffurfiaeth y busnes â'r gofynion mewn perthynas â HACCP. Yn yr achos arall, nid oedd yr wybodaeth a gofnodwyd gan swyddogion ar ffurflenni *aide-memoire* arolygu yn ddigonol er mwyn dangos asesiad trylwyr o gydymffurfiaeth.
- 7.10 Roedd archwilwyr yn gallu cadarnhau y cynhaliwyd, yn gyffredinol, asesiad digonol o hyfforddiant a thrafodaethau gyda phobl ac eithrio'r gweithredwr busnes bwyd sy'n ymdrin â bwyd lle bo hynny'n briodol. Roedd tystiolaeth ar gael mewn pedwar achos i ddangos bod bwyd wedi'i fewnforio wedi'i ystyried, ac nid oedd archwilwyr yn gallu cadarnhau bod swyddogion wedi cyflawni gwiriadau ar farciau iechyd/I.D. Diwygiwyd y ffurflen *aide-memoire* yn ystod yr archwiliad i gynnwys nodyn atgoffa mwy amlwg i swyddogion gofnodi marciau ID.
- 7.11 Mewn chwech o'r deg achos, cadarnhaodd cofnodion arolygu bod swyddogion wedi cyflawni asesiad priodol o effeithiolrwydd mesurau

rheoli croeshalogi yn unol â chanllawiau cyfredol. Yn yr achosion eraill, nid oedd digon o wybodaeth i ddangos bod swyddogion wedi ystyried cydymffurfiaeth busnesau yn llawn o ran diogelu bwyd rhag cael ei groeshalogi. Diwygiwyd y ffurflen *aide-memoire* yn ystod yr archwiliad i gynnwys nodyn atgoffa amlycach ar gyfer swyddogion i gofnodi gwybodaeth.

- 7.12 Roedd y sgoriau risg a roddwyd i'r safleoedd yn gyson â chanfyddiadau'r arolygiadau ym mhob achos.
- 7.13 Lle'r oedd angen ailymweld, roedd cofnodion yn cadarnhau bod yr ailymweliadau wedi'u cyflawni o fewn yr amserlen a nodwyd yng ngweithdrefn ailymweld yr awdurdod.
- 7.14 Hysbysodd yr awdurdod yr ASB cyn yr archwiliad bod naw sefydliad cymeradwy yn ei ardal, ac archwiliwyd cofnodion mewn perthynas â chwech ohonynt.
- 7.15 Yn yr holl achosion a archwiliwyd, roedd yr archwilwyr yn gallu cadarnhau bod yr awdurdod wedi dilyn y broses briodol ar gyfer cymeradwyo sefydliadau.
- 7.16 Roedd yr archwilwyr yn gallu cadarnhau bod yr arolygiadau diweddaraf mewn sefydliadau cymeradwy wedi'u cyflawni gan swyddogion awdurdodedig ar yr amlderau sy'n ofynnol yn ôl y Cod Ymarfer Cyfraith Bwyd.
- 7.17 Roedd yr wybodaeth a gasglwyd ar ffurflenni *aide-memoire* yn ystod yr arolygiadau diweddaraf o sefydliadau cymeradwy yn ddigon i gadarnhau bod arolygiadau cwmpas llawn wedi'u cyflawni, a bod swyddogion wedi cyflawni asesiadau trylwyr o gydymffurfiaeth busnesau gyda gofynion hylendid bwyd.
- 7.18 Roedd yr archwilwyr yn gallu cadarnhau bod swyddogion wedi asesu defnydd busnesau o farciau iechyd mewn pedwar achos. Mewn pum achos roedd yr archwilwyr yn gallu cadarnhau bod marciau iechyd/ID deunyddiau amrwd wedi'u hasesu'n ddigonol. Yn y ddau achos arall nid oedd archwilwyr yn gallu gwirio, o'r wybodaeth oedd ar gael, bod y gwiriadau hyn wedi digwydd.



- 7.19 Roedd y sgoriau risg a roddwyd i sefydliadau cymeradwy yn gyson â chanfyddiadau'r arolygiad ym mhob achos.
- 7.20 Roedd gweithdrefn ymyriadau bwyd yr awdurdod yn manylu ar ba adegau gellid defnyddio Strategaeth Orfodi Amgen ar gyfer sefydliadau risg is. Roedd holiadur hunanasesu ar gael fel atodiad i'r weithdrefn.
- 7.21 Cyn yr archwiliad, roedd yr awdurdod wedi darparu rhestr o weithgarwch Strategaeth Orfodi Amgen a gyflawnwyd mewn perthynas â sefydliadau gwarchodwyr plant. Dewiswyd ffeil pump sefydliad i'w harchwilio.
- 7.22 Roedd tystiolaeth ar gael ym mhob achos ond un i ddangos bod swyddog sydd wedi'i awdurdodi'n briodol wedi adolygu'r holiadur Strategaeth Orfodi Amgen ac wedi ymateb i weithredwr y busnes bwyd mewn modd priodol. Ond yn yr achos arall, ni drefnwyd archwiliad mewn ymateb i'r wybodaeth a gasglwyd, er bod yr wybodaeth a ddarparwyd yn aneglur mewn perthynas â meysydd yn ymwneud â rheoli tymheredd.
- 7.23 Nodwyd ym mhob achos bod yr holiadur Strategaeth Orfodi Amgen wedi'i ddefnyddio yn lle arolygiad busnes newydd, yn groes i'r Cod Ymarfer Cyfraith Bwyd, sy'n ei gwneud yn ofynnol i gynnal arolygiad cychwynnol cyn y gellir cyflwyno Strategaeth Orfodi Amgen. Roedd yr awdurdod yn cydnabod hyn, a chynghorwyd staff mewn cyfarfod tîm diweddar na ellir dilyn yr arfer hwn bellach.

### ***Argymhellion***

- 7.24 Dylai'r awdurdod:
- (i) Sicrhau y caiff ymyriadau/arolygiadau hylendid bwyd eu cynnal ar yr adegau sy'n ofynnol yn ôl y Cod Ymarfer Cyfraith Bwyd [Y Safon – 7.1]
  - (ii) Sicrhau, lle bo'n berthnasol, y caiff Strategaethau Gorfodi Amgen eu cyflawni, ac y nodir y dyddiad ar bob ffurflen gofrestru fel bod sefydliadau wedi'u cofrestru yn unol â'r Cod Ymarfer Cyfraith Bwyd, canllawiau a gyhoeddir yn ganolog a gweithdrefnau lleol. [Y Safon – 7.2]

- |   |
|---|
| (iii) Asesu cydymffurfiaeth sefydliadau yn ei ardal yn llawn â'r safonau sydd wedi'u pennu gan y gyfraith; yn arbennig mewn perthynas â gwirio tarddle bwyd a fewnforiwyd a gwirio marciau iechyd/ID. [Y Safon – 7.3] |
|---|

### *Ymweliadau Dilysu â Safleoedd Bwyd*

- 7.25 Yn ystod yr archwiliad, gwnaed ymweliadau dilysu â dau sefydliad bwyd gyda swyddogion awdurdodedig yr awdurdod a oedd wedi cynnal yr arolygiadau hylendid bwyd diwethaf. Prif amcan yr ymweliadau oedd ystyried effeithiolrwydd asesiadau'r awdurdod o gydymffurfiaeth y busnesau bwyd â gofynion cyfraith bwyd.
- 7.26 Roedd y swyddogion yn hyddysg am y busnesau ac yn gallu cyfleu dealltwriaeth briodol o'r risgiau diogelwch bwyd sy'n gysylltiedig â'r gweithgareddau ym mhob sefydliad. Dangosodd y swyddogion eu bod wedi cynnal arolygiad trwyadl a'u bod wedi asesu cydymffurfiaeth â gofynion cyfreithiol a chanllawiau a gyhoeddir yn ganolog mewn modd priodol, ac roeddent yn cynnig cyngor defnyddiol i weithredwyr y busnesau bwyd.

### **Safonau Bwyd**

- 7.27 Yn 2014/15, roedd yr awdurdod wedi rhoi gwybod drwy'r system LAEMS bod 53.98% o fusnesau bwyd yng nghategori risg A-C a oedd yn disgwyl arolygiad wedi'u harolygu. Roedd hyn yn dangos cynnydd o 16.55% o 37.43% y flwyddyn flaenorol.
- 7.28 Nododd yr wybodaeth a ddarparwyd cyn yr archwiliad fod gan yr awdurdod gyfanswm o 1,462 o fusnesau bwyd yn ei gronfa ddata safonau bwyd, cronfa yr oedd yn ei rannu â'r tîm hylendid bwyd. O'r rhain, roedd 27 busnes heb sgôr.
- 7.29 Adeg yr archwiliad, roedd ymyriadau a raglennir yn hwyr mewn 461 o sefydliadau bwyd. O'r rhain, roedd un yn risg uwch (sefydliad categori A), roedd 91 yn risg ganolig (sefydliadau categori B), ac roedd 369 yn risg is (sefydliadau categori C).
- 7.30 Roedd gan yr awdurdod weithdrefn arolygu ar gyfer safonau bwyd, a oedd yn unol â'r Cod Ymarfer Cyfraith Bwyd ar y cyfan. Serch hynny,

byddai'r awdurdod yn elwa ar gynnwys cyfeiriad at ddefnyddio arbenigwyr yn ei weithdrefn ymyrryd. Roedd dull yr awdurdod o hysbysu busnesau newydd, ac o fynd i'r afael â diffyg cydymffurfio ynghyd â pholisi ailymweld, wedi'i ddatblygu'n ddiweddar.

- 7.31 Roedd ffurflen Adrodd am Arolygiadau Safonau Bwyd, a oedd hefyd yn cael ei ddefnyddio i adrodd am ymweliad, wedi'i datblygu gan yr awdurdod i'w defnyddio gan swyddogion wrth gofnodi canfyddiadau yn y mwyafrif o achosion. Fodd bynnag, nid oedd digon o le ar y ffurflen i gasglu'r arsylwadau a wnaed a/neu'r data a gasglwyd, sy'n angenrheidiol wrth gynnal asesiad cwmpas llawn o gydymffurfiaeth busnes gyda gofynion sy'n berthnasol i safonau bwyd. Roedd yr awdurdod wedi datblygu ffurflen *aide-memoire* briodol yn ddiweddar, er mwyn cynorthwyo swyddogion wrth ddangos bod asesiadau trylwyr o gydymffurfiaeth busnesau'n cael eu cyflawni. Roedd yr archwilwyr yn gallu cadarnhau iddi gael ei defnyddio mewn rhai achosion.
- 7.32 Yn ystod yr archwiliad, cynhaliwyd archwiliad o'r gronfa ddata sefydliadau bwyd, a'r cofnodion arolygu copi caled diweddaraf mewn perthynas â deg sefydliad.
- 7.33 Roedd yr hanes yn ffeiliau saith sefydliad yn cadarnhau bod y rhain wedi'u harolygu dros y blynyddoedd diwethaf ar yr amllder sy'n ofynnol gan y Cod Ymarfer Cyfraith Bwyd. Fodd bynnag, nid oedd tri wedi'u harolygu ar yr amlderau gofynnol, ac roedd un o'r rhain yn risg uchel a dau yn risg ganolig. Cynhaliwyd arolygiadau yn y sefydliadau hyn rhwng 9 a 44 mis heibio i'r dyddiad a nodwyd. Mae'n ofynnol o dan y Cod Ymarfer Cyfraith Bwyd bod ymyriadau'n cael eu cynnal o fewn 28 diwrnod o'r dyddiad a nodwyd.
- 7.34 Roedd cofnodion o arsylwadau mewn perthynas â'r arolygiadau diwethaf yn hygyrch ac yn glir mewn naw achos. Mewn dau achos, roedd arsylwadau'r swyddogion wedi'u casglu gan ddefnyddio *aide-memoire* arolygu safonau bwyd yr awdurdod a gyhoeddwyd yn ddiweddar, ynghyd â'r ffurflen adrodd am arolygiad. Mewn un achos, nid oedd ffurflen *aide-memoire* na ffurflen adrodd am arolygiad ar gael.
- 7.35 Nododd yr archwilwyr bod swyddogion yn cofnodi'r wybodaeth ar y cyfan, ac eithrio ar ffurflenni adrodd. Felly nid oedd cofnodion arolygu yn adlewyrchu cwmpas a dyfnder yr arsylwadau a wnaed a/neu'r data a

gasglwyd yn ystod yr arolygiad yn ddigon manwl, yn groes i'r Cod Ymarfer Cyfraith Bwyd. O achos yr wybodaeth gyfyngedig a gofnodwyd, nid oedd hi'n bosibl yn gyffredinol i wirio bod swyddogion wedi ystyried maint a graddfa'r gweithgarwch a gyflawnir gan y busnes. At hynny, nid oedd yn bosibl gwirio'n gyson bob tro bod gofynion cyfansoddiadol, cyflwyno a labelu, gofynion olrhain (gan gynnwys trefniadau tynnu/galw cynnyrch yn ôl), bodolaeth ac effeithiolrwydd systemau rheoli ansawdd, p'un a oeddent yn ymdrin â bwyd wedi'i fewnforio, effeithiolrwydd systemau i sicrhau gwahanu bwyd a bwyd anifeiliaid, a chydymffurfiaeth â manylebau'r cyflenwr, wedi'u hasesu lle bo hynny'n briodol.

- 7.36 Roedd yr archwilwyr yn gallu cadarnhau mewn dau achos bod arolygiadau wedi bod yn ddirybudd. Yn yr achosion eraill, nid oedd yr archwilwyr yn gallu gwirio bod yr archwiliadau wedi bod yn ddirybudd.
- 7.37 Mewn perthynas â dau fater a amlygwyd yn flaenorol, roedd yr archwilwyr yn gallu gwirio yr aethpwyd i'r afael â materion sylweddol o arolygiadau blaenorol yn ddigonol mewn naw o'r deg achos a archwiliwyd. Yn yr achos arall, nid oedd yr archwilwyr yn gallu gwirio p'un a gymerwyd camau digonol mewn perthynas â throstedd cyflwyno bwyd a oedd wedi digwydd mwy nag unwaith.
- 7.38 Roedd yr awdurdod yn defnyddio'r cynllun sgorio ymyriadau yn Atodiad 5 y Cod Ymarfer Cyfraith Bwyd ar gyfer pennu amlerau ymyriadau safonau bwyd. Ym mhob achos, roedd yr archwilwyr yn gallu cadarnhau bod y sgoriau risg yn gyson â'r wybodaeth yn ffeiliau'r sefydliad bwyd.
- 7.39 Mewn wyth achos, roedd yr archwilwyr yn gallu gwirio bod camau dilynol priodol wedi'u cymryd mewn perthynas â chanfyddiadau'r arolygiadau diweddar. Yn y ddau achos arall, nid oedd yr archwilwyr yn gallu gwirio p'un a oedd angen cymryd camau yn seiliedig ar yr wybodaeth gyfyngedig a oedd yn yr adroddiad arolygu.
- 7.40 Nododd yr awdurdod ei fod wedi cyflawni cynllun Strategaeth Orfodi Amgen ar gyfer safonau bwyd; ond nid oedd gweithdrefn gofnodedig wedi'i datblygu ar gyfer cyflawni ymyriadau Strategaethau Gorfodi Amgen.
- 7.41 Dewiswyd deg ffeil safonau bwyd i'w harchwilio. Roedd yr archwilwyr yn gallu cadarnhau bod tri wedi bod yn destun Strategaeth Orfodi Amgen yn unol â'r Cod Ymarfer Cyfraith Bwyd. Nid oedd yr achosion eraill wedi

bod yn destun ymyriad Strategaeth Orfodi Amgen, ond roeddent wedi bod yn destun digwyddiad codi ymwybyddiaeth a gynhaliwyd gan yr awdurdod lleol.

7.42 Nid oedd yr archwilwyr yn gallu cadarnhau p'un a ddylai'r awdurdod wedi cynnwys tri sefydliad a oedd wedi bod yn destun Strategaeth Orfodi Amgen yn y cynllun, yn unol â'r Cod Ymarfer Cyfraith Bwyd. At hynny, nid oedd digon o gofnodion ynghylch y modd y cyflawnwyd y Strategaeth Orfodi Amgen, ac nid oedd yr archwilwyr yn gallu cadarnhau p'un a oedd unrhyw amgylchiadau a allai fod wedi arwain at arolygiad cychwynnol.

7.43 Yn y tri achos, roedd swyddog a oedd wedi'i awdurdodi'n briodol wedi un ai adolygu'r ffeil neu wedi cynnal Strategaeth Orfodi Amgen.

### ***Argymhellion***

7.44 Dylai'r awdurdod:

(i) Sicrhau y caiff ymyriadau safonau bwyd eu cynnal ar amllder nad yw'n llai na'r hyn a bennir gan y Cod Ymarfer Cyfraith Bwyd. [Y Safon – 7.1]

(ii) Cyflawni ymyriadau/arolygiadau (gan gynnwys Strategaeth Orfodi Amgen) yn unol â'r ddeddfwriaeth berthnasol, y Cod Ymarfer Cyfraith Bwyd a chanllawiau a gyhoeddir yn ganolog. [Y Safon – 7.2]

(iii) Asesu cydymffurfiaeth sefydliadau yn ei ardal â'r safonau sydd wedi'u pennu gan y gyfraith; a sicrhau y cymerir camau dilynol priodol er mwyn mynd i'r afael ag achosion o ddiffyg cydymffurfio yn unol â Pholisi Gorfodi'r awdurdod. [Y Safon – 7.3]

(iv) Diwygio'r gweithdrefnau ymyrryd i roi canllaw ar ddefnyddio arbenigwyr a Strategaeth Orfodi Amgen [Y Safon – 7.4]

(v) Sicrhau bod sylwadau/data a wnaed neu a gasglwyd yn ystod yr arolygiad/archwiliad yn cael eu cofnodi yn amserol er mwyn osgoi colli gwybodaeth berthnasol, a sicrhau bod cofnodion ymyriadau cyfoes yn cael eu storio mewn modd sy'n ei gwneud yn hawdd cael gafael arnynt. [Y Safon – 7.5]

### *Ymweliad Dilysu â Busnesau Bwyd*

- 7.45 Yn ystod yr archwiliad, cynhaliwyd ymweliadau dilysu â dau fusnes bwyd gyda'r un swyddog awdurdodedig a gynhaliodd yr arolygiad safonau bwyd mwyaf diweddar o'r safle. Prif amcan yr ymweliadau oedd ystyried effeithiolrwydd asesiad yr awdurdod o'r systemau'r busnes ar gyfer sicrhau bod bwyd yn bodloni gofynion cyfraith safonau bwyd.
- 7.46 Er nad oedd digon o gofnodion manwl o'r ymyriadau, roedd swyddogion yn gallu dangos eu gwybodaeth am y busnesau a rhoi sicrwydd i'r archwilwyr bod asesiadau o reolaethau safonau bwyd wedi'u cynnal fel rhan o'r arolygiad. Roedd un busnes wedi gwneud digon o newidiadau i'w offer ers yr arolygiad lle'r oedd swyddog wedi nodi y dylid cymryd camau dilynol pellach.

## **8 Cwynion am Fwyd a Sefydliadau Bwyd**

- 8.1 Roedd yr awdurdod wedi datblygu ystod o weithdrefnau ar gyfer ymdrin â chwynion bwyd a cheisiadau am wasanaeth. Roedd y brif weithdrefn yn seiliedig ar dempled a oedd wedi'i gynhyrchu gan Banel Arbenigwyr Diogelwch Bwyd Penaethiaid Iechyd yr Amgylchedd Cymru. Roedd nifer o weithdrefnau penodol yn cyd-fynd â'r weithdrefn, yn manylu ar drefniadau lleol mewn perthynas ag archwilio a samplu. Roedd cynnwys y weithdrefn yn cyd-fynd â'r Cod Ymarfer Cyfraith Bwyd a chanllawiau swyddogol.
- 8.2 Nid oedd amseroedd targed ar gyfer ymateb i gwynion safonau bwyd a hylendid bwyd a cheisiadau am wasanaeth wedi'u cynnwys yn y gweithdrefnau. Mewn perthynas â hylendid bwyd, roedd y weithdrefn yn cynnwys cyfeiriad at y cyfyngiadau amser a osodir yn y gronfa ddata cwynion bwyd. Sefydlodd yr archwilwyr bod yr amseroedd targed hyn wedi'u gosod, ac na ellid eu diwygio gan swyddogion. Fodd bynnag, mewn perthynas â safonau bwyd, nid oedd unrhyw wybodaeth benodol wedi'i chofnodi mewn perthynas ag amseroedd ymateb targed arfaethedig, a sefydlodd yr archwilwyr bod modd i'w swyddogion newid neu ddiwygio amseroedd ymateb a osodwyd yn y gronfa ddata ceisiadau am wasanaeth.

### ***Hylendid Bwyd***

- 8.3 Cynhaliwyd archwiliad o gofnodion deg cwyn hylendid bwyd a ddaeth i law yr awdurdod yn ystod y ddwy flynedd cyn yr archwiliad hwn. Ymatebwyd i bob cwyn o fewn yr amser ymateb targed a nodwyd yn y gronfa ddata cwynion am fwyd, yn unol â gweithdrefn yr awdurdod.
- 8.4 Archwiliwyd pob cwyn yn unol â gweithdrefnau'r awdurdod, ac roedd tystiolaeth ar gael i ddangos bod ymchwiliadau priodol wedi'u cyflawni. Lle bo'n berthnasol, hysbyswyd yr achwynydd am ganlyniad yr ymchwiliad.

### ***Safonau Bwyd***

- 8.5 Cynhaliwyd archwiliad o gofnodion deg cwyn safonau bwyd a ddaeth i law yr awdurdod yn ystod y ddwy flynedd cyn yr archwiliad hwn. Daeth yr archwilwyr i'r casgliad y gweithredwyd ar yr holl gwynion mewn modd

amserol, ond nid oedd modd cymharu â'r amseroedd ymateb targed gan na nodwyd y rhain yng ngweithdrefn yr awdurdod.

- 8.6 Archwiliwyd pob cwyn yn unol â gweithdrefn yr awdurdod a chanllawiau a gyhoeddir yn ganolog.
- 8.7 Yn achos pob un o'r cwynion, lle'r oedd manylion yr achwynydd wedi'u rhoi i'r awdurdod, roedd tystiolaeth ei fod wedi'i hysbysu am ganlyniad yr ymchwiliad.

### ***Argymhellion***

- 8.8 Dylai'r awdurdod:
- (i) Diwygio'r weithdrefn safonau bwyd i gynnwys amser targed ar gyfer ymateb i gwynion safonau bwyd a cheisiadau am wasanaeth. [Y Safon – 8.1]



## **9 Cynllun y Prif Awdurdod ac Egwyddor yr Awdurdod Cartref**

- 9.1 Gosodwyd ymrwymiad yr awdurdod i'r Cynllun Prif Awdurdod ac Egwyddor yr Awdurdod Cartref yn ei Bolisi Gorfodi a'i weithdrefn gweithredu ar yr Awdurdod Cartref.
- 9.2 Cafodd archwilwyr wybod bod swyddogion wedi derbyn cyfrineiriau er mwyn cael mynediad at wefan y Prif Awdurdod.
- 9.3 Roedd yr ystyriaethau Awdurdod Cartref wedi'u cynnwys mewn rhai gweithdrefnau eraill, er enghraifft gweithdrefnau cwynion am fwyd a samplu.
- 9.4 Er nad oedd unrhyw gytundebau Awdurdod Cartref ar waith gan yr awdurdod, roedd yr archwilwyr yn gallu gwirio ei fod, yn rhinwedd ei swyddogaeth fel awdurdod gorfodi, yn rhoi ystyriaeth i ganllawiau'r Prif Awdurdod ac yn mynd i'r afael â materion o bryder gyda Phrif Awdurdodau, fel y bo'n briodol.
- 9.5 Roedd gan yr awdurdod drefniadau Awdurdod Cartref ar waith gydag 11 busnes bwyd lleol. Dangosodd gofnodion a archwiliwyd yn ystod yr archwiliad bod cyngor cywir ac amserol wedi'i roi iddynt, a bod yr awdurdod wedi ymateb yn briodol i geisiadau gwybodaeth gan awdurdodau lleol eraill.

## 10 Cyngor i Fusnesau

- 10.1 Mae'r awdurdod wedi bod yn rhagweithiol o ran darparu cyngor ar hylendid bwyd a safonau bwyd i fusnesau. Roedd tystiolaeth i nodi bod yr awdurdod wedi rhoi cyngor yn ystod ymyriadau, ynghyd ag ar gais, yn ysgrifenedig a dros y ffôn. Amcangyfrifwyd yn y Cynllun Gwasanaeth y byddai dros 300 o geisiadau y flwyddyn am wybodaeth a chyngor gan y gwasanaeth hylendid bwyd.
- 10.2 Roedd ystod o wybodaeth ar gael ar wefan yr awdurdod er mwyn cynorthwyo busnesau lleol, gan gynnwys cyngor ar:
- Sefydlu busnes bwyd newydd;
  - Cymeradwyo a chofrestru;
  - Arolygiadau hylendid bwyd;
  - Y Cynllun Sgorio Hylendid Bwyd (CSHB);
  - Rheoli Diogelwch Bwyd, gan gynnwys Dadansoddi Peryglon a Phwynt Rheoli Critigol (HACCP);
  - Cwynion am fwyd;
  - Gwenwyn bwyd;
  - Hyfforddiant diogelwch bwyd.
- 10.3 Roedd cyngor busnes ar ystod mawr o faterion safonau bwyd ar gael ar wefan yr awdurdod drwy ddolenni at Safonau Masnach Cymru a'r Sefydliad Safonau Masnach Siartredig.
- 10.4 Roedd yr awdurdod wedi cymryd rhan mewn ymweliadau hyfforddi i siopau cebab, a oedd yn targedu busnesau sydd angen mwy o gefnogaeth i ddatblygu lefel gydymffurfio dda. Roedd yr awdurdod hefyd wedi darparu cyrsiau hyfforddi i 170 o bobl o 115 o fusnesau ar ofynion y newidiadau diweddar i gyfraith labelu, gan gynnwys labelu alergenau.

## **11 Cronfa Ddata Sefydliadau Bwyd**

- 11.1 Roedd gan yr awdurdod weithdrefn gofnodedig ar gyfer cynnal a chadw ei gronfa ddata sefydliadau bwyd, a oedd wedi'i ddiwygio'n ddiweddar i adlewyrchu'r ystod eang o weithgarwch a gyflawnwyd i'w gadw'n gyfredol. Caiff gwybodaeth i ddiweddarau'r gronfa ddata ei chasglu o ymyriadau, adolygiadau cronfa ddata, cyfeiriaduron busnes, gwybodaeth leol, dychweliadau post a chysylltu ag adrannau eraill o'r cyngor megis trwyddedu, cynllunio a rheoli adeiladau.
- 11.2 Roedd prosesau monitro mewnol yr awdurdod yn cynnwys gwiriadau misol a/neu chwarterol ar gywirdeb y gronfa ddata. Cyflawnwyd gwiriadau hefyd cyn cyflwyno'r canlyniadau LAEMS blynyddol.
- 11.3 Dewisodd yr archwilwyr ddeg sefydliad bwyd ar hap yn ardal yr awdurdod o'r Rhynggrwyd. Roedd pob sefydliad bwyd a oedd yn dal i fasnachu wedi'u cynnwys ar gronfa ddata'r awdurdod ac yn y rhaglenni arolygu bwyd.

## **12 Arolygu a Samplu Bwyd**

- 12.1 Roedd Cynllun Gwasanaeth yr awdurdod yn cynnwys nodau ac amcanion a oedd yn cyfeirio'n benodol at fonitro a samplu bwyd i wirio eu bod yn cydymffurfio â gofynion statudol. Datblygwyd polisi mewn perthynas â gweithgarwch samplu safonau bwyd a samplu microbiolegol hefyd.
- 12.2 Datblygwyd a chyflwynwyd rhaglenni ar gyfer archwilio microbiolegol a dadansoddi cemegol ar gyfer bwyd a oedd yn berthnasol i flaenoriaethau cenedlaethol a rhanbarthol. Yn ogystal ag ariannu ei raglen samplu ei hun, roedd yr awdurdod wedi elwa'n flaenorol ar arian gan yr ASB ar gyfer samplu safonau bwyd.
- 12.3 Datblygwyd gweithdrefnau o ran y dull o samplu bwyd ar gyfer dadansoddi safonau bwyd ac ar gyfer samplu microbiolegol bwyd, a oedd yn unol â'r Cod Ymarfer Cyfraith Bwyd a chanllawiau swyddogol yn gyffredinol. Diweddarwyd y gweithdrefnau'n ddiweddar i gynnwys y darpariaethau ar gyfer cymryd samplau o bob math o fwyd fel y nodir yn y Cod Ymarfer Cyfraith Bwyd, ac i hysbysu gweithredwyr busnesau bwyd am ganlyniadau samplau ffurfiol ac anffurfiol.
- 12.4 Roedd yr awdurdod wedi penodi Archwilydd Bwyd a Dadansoddwr Cyhoeddus i archwilio a dadansoddi samplau bwyd, ac roedd ganddo gytundeb ffurfiol ag Iechyd Cyhoeddus Cymru ar gyfer archwilio bwyd yn ficrobiolegol.
- 12.5 Roedd yr holl samplau a chanlyniadau hylendid bwyd a safonau bwyd wedi'u rhoi yng nghronfa ddata'r awdurdod. Yn ogystal, roedd samplau hylendid bwyd hefyd yn cael eu cyflwyno ar System Arolygu Bwyd ganolog yr Asiantaeth Safonau Bwyd.

### ***Hylendid Bwyd***

- 12.6 Cyflawnwyd gwiriadau archwilio o gofnodion deg o samplau a gyflwynwyd i'w harchwilio'n ficrobiolegol; roedd saith ohonynt yn gysylltiedig â samplau anfoddhaol. Roedd yr holl ddogfennau mewn perthynas â samplu yn hygyrch ac yn glir, roedd yr holl samplau wedi'u cymryd gan swyddog a oedd wedi'i awdurdodi a'i hyfforddi'n briodol, ac

roedd y canlyniadau ar gael yn ffeiliau'r sefydliadau bwyd ym mhob achos.

- 12.7 Hysbyswyd busnesau am ganlyniadau anfoddhaol, a chymerwyd camau priodol gan swyddogion lle bo'n berthnasol.

### ***Safonau Bwyd***

- 12.8 Archwiliwyd y cofnodion yn ymwneud â deg sampl safonau bwyd; roedd pob un ohonynt yn gysylltiedig â samplau anfoddhaol. Roedd pob un sampl wedi'i gymryd gan swyddogion a oedd wedi'u hyfforddi a'u hawdurdodi'n briodol, ac roedd canlyniadau'r samplau ar gael yn ffeiliau'r sefydliadau bwyd ym mhob achos.
- 12.9 Rhoddwyd gwybod i'r busnesau am ganlyniadau anfoddhaol yn ysgrifenedig ym mhob achos, a chymerwyd camau priodol gan swyddogion mewn ymateb i samplau anfoddhaol yn naw o'r achosion. Roedd hyn yn cynnwys cysylltu â'r Prif Awdurdod neu'r Awdurdod Cartref fel oedd yn briodol. Yn yr achos arall, nid oedd tystiolaeth ar gael i alluogi archwilwyr i wirio bod camau dilynol digonol wedi'u cymryd ar ôl iddynt gysylltu â'r gweithgynhyrchwr y tro cyntaf.

### ***Argymhellion***

- 12.10 Dylai'r awdurdod:
- (i) Cymryd camau priodol yn unol â'i Bolisi Gorfodi lle nad ystyrir bod canlyniadau samplu safonau bwyd yn foddhaol. [Y Safon – 12.7]

### **13 Rheoli ac Ymchwilio i Achosion a Chlefydau Heintus sy'n Gysylltiedig â Bwyd**

- 13.1 Roedd yr awdurdod wedi penodi swyddog i arwain ar glefydau trosglwyddadwy, ynghyd â swyddogion dynodedig eraill i gynorthwyo wrth archwilio ac asesu hysbysiadau a dderbynnir gan yr awdurdod.
- 13.2 Roedd Cynllun Achosion (*outbreak*) Cymru, a gynhyrchwyd gan grŵp aml-asiantaethol, gan gynnwys lechyd Cyhoeddus Cymru a Llywodraeth Cymru, wedi'i gymeradwyo i'w fabwysiadu gan Bennaeth Diogelu'r Cyhoedd. Roedd y Cynllun wedi'i olygu i gynnwys manylion cyswllt yr awdurdodau lleol cyfagos ac asiantaethau eraill sydd â rôl mewn rheoli achosion.
- 13.3 Roedd yr awdurdod wedi cynhyrchu gweithdrefn ar gyfer ymchwilio i achosion achlysurol o hysbysiadau clefydau heintus sy'n gysylltiedig â bwyd. Roedd hyn yn cynnwys taflenni cyngor a holiaduron ymchwilio, ynghyd ag ystod o weithdrefnau penodol i bathogenau. Cynghorodd yr archwilwyr y byddai'r weithdrefn yn elwa ar gael ei hadolygu i gynnwys cyngor i swyddogion pan na chaiff holiaduron post eu dychwelyd ar gyfer achosion achlysurol o campylobacter, a chyfeiriad at ymchwiliadau i achosion o Norofeirws sy'n gysylltiedig â bwyd.
- 13.4 Roedd gan yr awdurdod drefniadau ffurfiol ar waith i ymateb i hysbysiadau o glefydau heintus sy'n gysylltiedig â bwyd a dderbynnir y tu allan i oriau gweithio arferol. Ni phrofwyd y trefniadau hyn fel rhan o'r archwiliad.
- 13.5 Dewiswyd hysbysiadau deg achos achlysurol o glefydau heintus sy'n gysylltiedig â bwyd er mwyn eu harchwilio. Roedd holiaduron llawn ar gael mewn wyth achos, a gadarnhaodd bod swyddogion wedi cyfweld â'r unigolion a oedd dan sylw. Roedd hefyd yn cadarnhau y cynhaliwyd ymchwiliadau amserol yn unol â gweithdrefnau'r awdurdod ac amseroedd ymateb targed. Yn y ddau achos lle'r oedd holiadur ar gael, gwnaeth yr archwilwyr sylwadau ar wyriadau bach o'r gweithdrefnau mewn perthynas â chofnodi gwybodaeth am gysylltiadau cartref a champau dilynol mewn sefydliadau bwyd perthnasol.
- 13.6 Yn y ddau achos arall nid oedd cofnodion ymchwilio ar gyfer achosion achlysurol o campylobacter ar gael. Dangosodd gofnodion bod holiaduron wedi'u hanfon drwy'r post at yr achosion, ac na dderbyniwyd

ymateb. Nid oedd unrhyw dystiolaeth o ymchwiliad dilynol na chymau pellach ar gael yn y ffeiliau. Daeth yr archwilyr i'r casgliad nad oedd hyn yn unol â chanllawiau a gyhoeddir yn ganolog mewn perthynas ag ymchwilio i achosion achlysurol, er ei fod yn unol â gweithdrefn yr awdurdod.

13.7 Nid oedd yr awdurdod wedi rhoi gwybod am unrhyw achosion o glefydau heintus sy'n gysylltiedig â bwyd yn ystod y ddwy flynedd cyn yr archwiliad.

13.8 Roedd cofnodion mewn perthynas â rheoli ac ymchwilio i glefydau heintus sy'n gysylltiedig â bwyd yn cael eu cadw gan yr awdurdod am o leiaf chwe blynedd.

### ***Argymhelliad***

13.9 Dylai'r awdurdod:

- (i) Diwygio'r weithdrefn ar gyfer ymchwilio i achosion achlysurol o glefydau heintus i gynnwys y camau gofynnol lle na chaiff holiaduron drwy'r post eu dychwelyd er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth â chanllawiau a gyhoeddir yn ganolog. [Y Safon – 13.2]

## **14 Digwyddiadau Diogelwch Bwyd**

- 14.1 Roedd yr awdurdod wedi datblygu polisi a gweithdrefn ar gyfer ymdrin â digwyddiadau a rhybuddion bwyd, a oedd hefyd yn cynnwys rhybuddion bwyd sy'n codi yn ei ardal.
- 14.2 Yn gyffredinol, roedd yr archwilwyr yn gallu gwirio bod sampl o bump rhybudd bwyd 'er gweithredu' diweddar a ddaeth i law'r awdurdod gan yr ASB wedi'u derbyn, a chymerwyd camau priodol yn unol â'r cyfarwyddiadau a gyhoeddwyd. Serch hynny, nid oedd unrhyw gofnodion o'r camau a gymerwyd mewn perthynas â rhybudd bwyd ar gael mewn un achos.
- 14.3 Roedd yr archwilwyr yn gallu cadarnhau bod yr awdurdod yn ymwybodol o'r gofynion i hysbysu'r ASB am unrhyw beryglon bwyd difrifol lleol, neu du hwnt, sy'n digwydd yn eu hardal ac roeddent wedi gwneud hynny pan roedd angen.



## 15 Gorfodi

- 15.1 Roedd yr awdurdod wedi datblygu Polisi Gorfodi adrannol, a oedd yn cynnwys gweithrediadau rheoleiddio a weithredir gan y gwasanaethau hylendid bwyd a safonau bwyd. Roedd y polisi ar gael i'r cyhoedd a busnesau ar wefan yr awdurdod.
- 15.2 Roedd y polisi yn hyrwyddo dull graddedig o orfodi, ac yn gyffredinol roedd yn unol â'r Cod Ymarfer Cyfraith Bwyd a chanllawiau swyddogol eraill. Roedd y polisi yn darparu meini prawf ar gyfer cymryd camau anffurfiol, rhybuddion syml ac erlyniadau, ac roedd yn cyfeirio at y cynlluniau Prif Awdurdod ac Awdurdod Cartref. Er bod y gweithdrefnau ar gyfer camau gorfodi unigol hefyd yn cynnwys meini prawf, byddai'r polisi yn elwa ar gynnwys yr amgylchiadau lle caiff hysbysiad ei ddefnyddio a chymeradwyaeth ei wahardd neu ei dynnu'n ôl.
- 15.3 Trafodwyd â swyddogion yr angen i ddatblygu'r polisi ymhellach i fanylu ar sut y byddant yn mynd i'r afael â diffyg cydymffurfio mewn sefydliadau awdurdodau lleol.
- 15.4 Roedd gweithdrefnau ar gyfer gwahardd neu dynnu cymeradwyaeth yn ôl wedi'u cofnodi yn y weithdrefn ar gyfer ymyriadau mewn sefydliadau cymeradwy, ac roedd gweithdrefn orfodi ar wahân wedi'i datblygu ar gyfer bwyd wedi'i fewnforio. Roedd y ddwy yn unol â'r Cod Ymarfer Cyfraith Bwyd.
- 15.5 Roedd gan yr awdurdod ystod o weithdrefnau a oedd, yn gyffredinol, yn unol â'r Cod Ymarfer Cyfraith Bwyd. Serch hynny, byddai'r weithdrefn gyfun ar gyfer atafael, atal, ardystio ac ildio bwyd anniogel yn wirfoddol yn elwa ar gael ei datblygu ymhellach i gynnwys rhagor o fanylion ar y trefniadau lleol ar gyfer dinistrio a chael gwared ar fwyd. At hynny, er bod gweithdrefn yr awdurdod ar gyfer Hysbysiadau Gwella Hylendid yn cynnwys y dull o'u cyflwyno â llaw, nid oedd yn rhoi manylion mewn perthynas â dulliau eraill o'u cyflwyno, megis drwy'r post; a all fod yn angenrheidiol pan nad oes modd eu cyflwyno â llaw. Roedd y weithdrefn ar gyfer Hysbysiadau Camau Unioni, a oedd wedi'i chynnwys yng ngweithdrefn gorfodi'r gwasanaeth hylendid bwyd, wedi'i datblygu'n ddiweddar i gynnwys sefyllfaoedd lle nad yw Hysbysiadau Camau Unioni yn briodol ac er mwyn rhoi canllaw ar wirio cydymffurfiaeth â'r hysbysiad.

- 15.6 Roedd yr awdurdod wedi defnyddio ystod o ddulliau gorfodi i sicrhau cydymffurfiaeth busnesau cymeradwy â deddfwriaeth hylendid bwyd. Roedd ymchwiliad ac erlyniad mawr mewn perthynas â safonau bwyd hefyd wedi digwydd yn ystod y ddwy flynedd cyn yr archwiliad.
- 15.7 Nodwyd mewn dogfennau cyn yr archwiliad bod y camau gorfodi ffurfiol canlynol wedi'u cymryd yn ystod y ddwy flynedd cyn yr archwiliad:
- 87 o Hysbysiadau Gwella Hylendid;
  - 5 Hysbysiad Camau Unioni;
  - 11 Cytundeb Cau yn Wirfoddol;
  - 1 achos o atafael bwyd;
  - 2 rybudd syml;
  - 2 benderfyniad i erlyn.
- 15.8 Dangosodd archwiliad o gofnodion y gronfa ddata un sefydliad â sgôr o '0' a oedd wedi bod yn destun camau gorfodi ffurfiol amserol a priodol. At hynny, roedd yr 11 sefydliad a oedd wedi bodloni'r meini prawf risg iechyd ar gyfer cau wedi bod yn destun camau gorfodi priodol. Mewn un achos lle byddai camau gorfodi pellach wedi bod yn briodol, roedd y busnes wedi rhoi'r gorau i fasnachu yn barhaol.
- 15.9 Dewiswyd deg Hysbysiad Gwella Hylendid a chofnodion cysylltiedig i'w harchwilio. Ym mhob achos, roedd cyflwyno'r hysbysiadau Gwella Hylendid yn gam priodol, roedd manylion y tramgwyddau wedi'u nodi ac roedd y mesurau i gyflawni cydymffurfiaeth wedi'u nodi ynghyd â'r holl wybodaeth ofynnol arall. Ym mhob achos, roedd tystiolaeth ar gael i gadarnhau y dull o gyflwyno, gwiriwyd cydymffurfiaeth mewn modd amserol, roedd camau dilynol priodol wedi'u cymryd, ac ym mhob achos perthnasol lle cyflawnwyd cydymffurfiaeth, cadarnhawyd hyn yn ysgrifenedig i weithredwr y busnes bwyd.
- 15.10 Cyflawnwyd gwiriadau archwilio ar gyfer pum Hysbysiad Camau Unioni a chofnodion cysylltiedig, a gadarnhaodd fod yr hysbysiadau wedi'u drafftio'n gywir, wedi'u llofnodi gan swyddog a oedd wedi'i awdurdodi'n briodol ac a fu'n dyst i'r tramgwydd, ac wedi'u cyflwyno'n briodol. Ym mhob achos, roedd yr archwilwyr yn gallu gwirio bod cyflwyno Hysbysiad Camau Unioni yn gam priodol. Serch hynny, mewn un achos, byddai'r awdurdod wedi elwa ar sicrhau y caiff cofnodion y sefydliad eu diweddarau â gwybodaeth mewn perthynas â phenderfyniadau gorfodi. At

hynny, nododd yr archwilwyr nad oedd cofnodion ar gael mewn dau achos i gadarnhau y darparwyd cyfeiriad y Llys Barn i'r derbynydd mewn achos o apêl.

- 15.11 Ym mhob achos, roedd yr archwilwyr yn gallu cadarnhau bod camau dilynol priodol wedi'u cymryd. Fodd bynnag, mewn un achos nid oedd archwilwyr yn gallu gwirio y cafodd cydymffurfiaeth ei wirio mewn modd amserol gan nad oedd digon o wybodaeth yng nghofnod y sefydliad i esbonio diffyg gweithgarwch monitro. Roedd yr archwilwyr yn gallu cadarnhau bod hysbysiadau wedi'u tynnu'n ôl yn gywir ym mhob achos perthnasol.
- 15.12 Archwiliwyd cofnodion deg achos o gau'n wirfoddol a gyflawnwyd gan yr awdurdod yn ystod y ddwy flynedd cyn yr archwiliad. Ym mhob achos ond un, roedd yr archwilwyr yn gallu gwirio bod cyflwyno hysbysiad i gau'n wirfoddol yn gam addas. Yn yr achos arall, nid oedd digon o wybodaeth ar gael i ddangos bod perygl ar ddigwydd.
- 15.13 Roedd tystiolaeth ar gael ar gyfer pob achos i gadarnhau bod swyddogion wedi gwneud gwiriadau rheolaidd i sicrhau bod sefydliadau wedi parhau i fod ar gau yn unol â'r weithdrefn a ddiwygiwyd yn ddiweddar.
- 15.14 Yn ystod y ddwy flynedd cyn yr archwiliad, roedd yr awdurdod wedi cyhoeddi dau rybudd syml mewn perthynas â safonau bwyd, a dau erlyniad; roedd un am droseddau safonau bwyd, a'r llall yn erlyniad ar y cyd rhwng y ddau wasanaeth.
- 15.15 Roedd yr archwilwyr yn gallu gwirio bod yr erlyniad ar y cyd wedi bod yn ddull priodol yn unol â'r canllawiau swyddogol perthnasol.
- 15.16 Mewn perthynas â dau Rybudd Syml a gyhoeddwyd gan swyddogion safonau bwyd, roedd yr archwilwyr yn gallu cadarnhau eu bod wedi'u cyflwyno'n briodol gan swyddogion awdurdodedig. Fodd bynnag, mewn un achos, nid oedd datganiad gan dyst ar gael i gefnogi'r penderfyniad i gyflwyno'r rhybudd syml. Yn yr achos arall, cyflwynwyd y rhybudd syml un mis ar ôl i'r cyfnod o gyflwyno achos ddod i ben, yn groes i'w weithdrefnau ei hun a chanllawiau swyddogol perthnasol.

### **Argymhellion**

15.17 Dylai'r awdurdod:

- (i) Adolygu a diwygio'r Polisi Gorfodi i gynnwys meini prawf ar gyfer defnyddio hysbysiadau statudol a chymau gorfodi mewn sefydliadau cymeradwy yn unol â'r Cod Ymarfer Cyfraith Bwyd a chanllawiau swyddogol, a chynnwys cyfeiriad at fusnesau a weithredir gan yr awdurdod. [Y Safon – 15.1]
- (ii) Adolygu, diwygio a chyflwyno ei weithdrefnau gorfodi cofnodedig i gynnwys rhagor o fanylion ar drefniadau lleol ar gyfer dinistrio a chael gwared ar fwyd anniogel, a darparu gwybodaeth mewn perthynas â dulliau amgen o gyflwyno Hysbysiadau Gwella hylendid bwyd. [Y Safon – 15.2]
- (iii) Sicrhau y caiff gwaith gorfodi hylendid bwyd a safonau bwyd ei gyflawni yn unol â'i weithdrefnau, y Cod Ymarfer Cyfraith Bwyd, canllawiau swyddogol a chanllawiau a gyhoeddir yn ganolog. [Y Safon – 15.2 a 15.3]
- (iv) Sicrhau y caiff pob penderfyniad ar gamau gorfodi eu cofnodi, ac y cânt eu gwneud ar ôl ystyried polisi gorfodi'r awdurdod. Dogfennu'r rhesymau am wyro oddi wrth y meini prawf a nodir yn y Polisi Gorfodi mewn unrhyw ffordd. [Y Safon – 15.4]

## 16 Cofnodion ac Adroddiadau Ymyriadau/Arolygiadau

### *Hylendid Bwyd*

- 16.1 Roedd cofnodion busnesau bwyd, gan gynnwys ffurflenni cofrestru, *aide-memoires* arolygu, ffurflenni adrodd ar ymweliadau ôl-arolygu a gohebiaeth yn cael eu storio gan yr awdurdod yn ei gronfa ddata sefydliadau bwyd electronig. Roedd manylion y dyddiad a'r mathau o ymyriadau a gynhaliwyd mewn sefydliadau bwyd, yn ogystal â'r proffiliau risg a'r sgoriau hylendid bwyd, hefyd yn cael eu cadw ar y system. Darparwyd yr wybodaeth mewn perthynas â sefydliadau bwyd a ddewiswyd i'w harchwilio gan yr awdurdod ar ffurf copi caled. Lle y bo hynny'n berthnasol, roedd gwybodaeth yn ymwneud â'r tri arolygiad diwethaf ar gael ac roedd cofnodion yn cael eu cadw am chwe blynedd.
- 16.2 Ym mhob achos, roedd ffeiliau'r sefydliadau yn cynnwys crynodeb, dogfennau HACCP, dogfen hysbysu a chynllun adeilad y sefydliad. Roedd gweddill yr wybodaeth ofynnol yn ôl Atodiad 10 y Canllawiau Ymarfer Cyfraith Bwyd ar gael ym mhob achos. Byddai ffeiliau sefydliadau ar gyfer sefydliadau cymeradwy yn elwa ar gael eu hadolygu i sicrhau y caiff unrhyw hen ddeunydd ei ddileu neu ei archifo, er mwyn caniatáu mynediad haws at y dogfennau mwyaf cyfredol.
- 16.3 Roedd y llythyrau a anfonwyd at fusnesau bwyd yn dilyn ôl arolygiad yn gwahaniaethu'n glir o ran y gofynion cyfreithiol a'r argymhellion arfer da. Roedd y llythyrau hyn hefyd yn manylu ar gamau unioni i'w cymryd a'r amserlenni gofynnol er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth, yn ogystal â nodi unrhyw gamau dilynol yr oedd yr awdurdod yn bwriadu eu cymryd.
- 16.4 Roedd llythyrau ôl-arolygu yn cynnwys yr holl wybodaeth sydd angen ei rhoi i weithredwyr busnesau bwyd o dan Atodiad 6 y Cod Ymarfer Cyfraith Bwyd.
- 16.5 Ym mhob achos a archwiliwyd, roedd y llythyrau arolygu diweddaraf wedi'u hanfon at fusnesau o fewn 14 diwrnod i'r ymweliad, fel sy'n ofynnol yng ngweithdrefnau'r awdurdod ac yn ôl deddfwriaeth Sgorio Hylendid Bwyd.

## **Safonau Bwyd**

- 16.6 Roedd canlyniadau arolygiadau'n cael eu rhannu â busnesau drwy ddefnyddio'r ffurflenni adrodd am arolygiadau safonau bwyd. Mewn rhai achosion, darparwyd llythyrau arolygu. Roedd cofnodion am ymyriadau yn cael eu cadw yng nghronfa ddata'r awdurdod, gan gynnwys y dyddiad, math o ymyriad a sgôr risg y sefydliad.
- 16.7 Roedd yr archwilwyr yn gallu cadarnhau bod gweithredwyr busnesau bwyd wedi derbyn adroddiad arolygu ar ddiwedd yr ymweliad mewn wyth o'r deg ymyriad a wiriwyd. Lle roeddent ar gael, roedd y ffurflenni adrodd am arolygiadau diweddaraf yn hygyrch ac yn glir, ac yn cynnwys y rhan fwyaf o'r wybodaeth sy'n ofynnol yn ôl Atodiad 6 y Cod Ymarfer Cyfraith Bwyd. Fodd bynnag, nid oedd rhywfaint o wybodaeth allweddol wedi'i darparu'n gyson, gan gynnwys math o fusnes, yr unigolyn a welwyd neu a gyfwelwyd, y dogfennau a archwiliwyd, y samplau a gymerwyd, y camau sydd angen i'r awdurdod eu cymryd, amserlen ar gyfer cydymffurfio a llofnod y swyddog a'i enw. Nododd yr archwilwyr bod yr awdurdod wedi datblygu Ffurflen Cyngor i Fusnesau ar Safonau Bwyd yn ddiweddar, a oedd yn cynnwys teitlau'r swyddogion.
- 16.8 Roedd yr awdurdod yn gallu dangos, lle bo'n berthnasol, bod cofnodion yn cael eu cadw am chwe blynedd o leiaf.

### **Argymhelliad**

- 16.9 Dylai'r awdurdod:
- (i) Cadw cofnodion safonau bwyd cyfredol a chywir o'r holl sefydliadau bwyd yn ei ardal, yn unol â'r Cod Ymarfer Cyfraith Bwyd a chanllawiau a gyhoeddir yn ganolog. Bydd y cofnodion hyn yn cynnwys adroddiadau ar bob ymyriad/arolygiad (gan gynnwys copïau o adroddiadau arolygiadau bwyd), penderfynu ar gydymffurfiaeth â gofynion cyfreithiol a wneir gan y swyddog awdurdodedig, manylion y camau a gymerwyd lle nodwyd achos o fethu â chydymffurfio a manylion unrhyw gamau gorfodi a gymerwyd. Dylai'r awdurdod hefyd gofnodi, gyda rhesymau, unrhyw achosion o wyro oddi wrth weithdrefnau sefydledig. [Y Safon – 16.1]

## **17 Cwynion am y Gwasanaeth**

- 17.1 Roedd yr awdurdod wedi datblygu polisi cwyno corfforaethol a pholisi adrannol a oedd ar gael i'r cyhoedd a busnesau bwyd ar ei wefan.
- 17.2 Ymdriniwyd â chwynion dan weithdrefn dau gam, gan y swyddog / rheolwr llinell perthnasol i ddechrau, ac yna gan swyddog cwynion yr adran os nad oedd y cwsmer yn fodlon.
- 17.3 Derbyniwyd un gwyn ynghylch y gwasanaeth hylendid bwyd yn y ddwy flynedd cyn yr archwiliad. Ymchwiliwyd iddi yn unol â gweithdrefn yr awdurdod, ac ni aeh y gwyn ymhellach.
- 17.4 Nododd archwilwyr fod manylion uwch swyddog wedi'u nodi mewn gohebiaeth rhag ofn y byddai busnesau'n dymuno cwyno yn dilyn arolygiad neu ymyriad arall.

## 18 Cyswllt â Sefydliadau Eraill

18.1 Roedd yr awdurdod wedi nodi yn ei Gynlluniau Gwasanaeth fod ganddo drefniadau cyswllt gyda nifer o grwpiau allanol, gyda'r nod o sicrhau bod camau gorfodi yn gyson a chymesur. Roedd swyddogion perthnasol yn mynychu cyfarfodydd Tasglu Diogelwch Bwyd De-orllewin Cymru, Tasglu Clefydau Trosglwyddadwy De-orllewin Cymru, Grŵp Cyswllt Clefydau Trosglwyddadwy, Grŵp Bwyd Gwent Fwyaf, y Fforwm Bwyd Cenedlaethol, Penaethiaid Safonau Masnach Cymru (WHoTS), Grŵp Gorfodi Labelu a Safonau Bwyd WHoTS, Fforwm Microbiolegol Bwyd Cymru a Phanel Arbenigwyr Diogelwch Bwyd Cymru. Roedd trefniadau hefyd ar waith i roi gwybod am waith y cyrff canlynol, a chysylltu â nhw fel sy'n briodol:

- Grŵp Llywio Swyddogion Sgorio Hylendid Bwyd Arweiniol;
- Penaethiaid Iechyd yr Amgylchedd Cymru;
- Panel Arbenigol Clefydau Trosglwyddadwy Cymru;
- Llywodraeth Cymru;
- Yr Asiantaeth Safonau Bwyd;
- Uned Cydgysylltu Twyll Bwyd Cymru;
- Asiantaeth Rheoleiddio Meddyginiaethau a Chynhyrchion Gofal Iechyd;
- Ymgynghorydd Iechyd Cyhoeddus Cymru mewn Rheoli Clefydau Trosglwyddadwy a nyrsys rheoli heintiau Iechyd Cyhoeddus Cymru.

18.2 Darparodd yr awdurdod dystiolaeth ei fod wedi cysylltu'n effeithiol â'r holl grwpiau allanol a nodwyd.

18.3 Roedd yr archwilwyr hefyd yn gallu gwirio bod trefniadau cyswllt ar waith gyda Dŵr Cymru, a'u bod wedi cysylltu â chydweithwyr trwyddedu ar faterion diogelwch bwyd. Roedd gweithdrefn orfodi'r awdurdod yn gosod sut caiff ymyriadau hylendid bwyd eu hadrodd wrth adrannau eraill y cyngor.

### **Arfer da – Cydweithio ynghylch caffael bwyd**

Roedd swyddogion safonau bwyd a diogelwch bwyd yr awdurdod yn gweithio ar y cyd â swyddogion caffael ar Bolisi Caffael Bwyd ar draws yr awdurdod, tendrau caffael bwyd newydd, rhoi contractau gwerthwyr symudol mewn digwyddiadau awdurdodau lleol, hyfforddiant, a'r safonau i'w defnyddio gan archwilwyr trydydd parti ar gyfer y gwasanaeth caffael.



18.4 Roedd yr awdurdod wedi gweithio ar y cyd ag awdurdodau lleol eraill i ganfod system feddalwedd Diogelu'r Cyhoedd addas i'w defnyddio ar draws Cymru.

## 19 Monitro Mewnol

- 19.1 Mae monitro mewnol yn bwysig i sicrhau y caiff targedau perfformiad eu cyflawni a bod gwasanaethau'n cael eu darparu yn unol â gofynion deddfwriaethol, canllawiau a gyhoeddir yn ganolog a gweithdrefnau'r awdurdod. Mae hefyd yn sicrhau cysondeb o ran darparu gwasanaethau.
- 19.2 Nodwyd nifer o ddangosyddion perfformiad allweddol ar gyfer y gwasanaethau hylendid a safonau bwyd. Roedd trefniadau monitro mewnol meintiol ar waith er mwyn monitro perfformiad yn erbyn targedau, a oedd wedi'u nodi yn y Cynllun Gwasanaeth ac yng Nghynllun Gwella'r awdurdod. Roedd cofnodion perfformiad yn cael eu cadw mewn cronfa ddata monitro perfformiad corfforaethol, a gaiff ei diweddarau, ac a adroddir arni, yn chwarterol. Roedd y rhaglenni ymyrryd yn cael eu monitro ymhellach yn ystod cyfarfodydd tîm.
- 19.3 Roedd gweithdrefnau monitro mewnol cofnodedig wedi'u datblygu ar gyfer gwasanaethau hylendid bwyd (yn seiliedig ar weithdrefn Panel Arbenigwyr Diogelwch Bwyd Cymru Gyfan) a safonau bwyd.
- 19.4 Roedd uwch swyddogion yn gyfrifol am fonitro gwasanaethau gorfodi bwyd yn fewnol ar lefel weithredol.
- 19.5 Roedd archwilwyr yn gallu dangos bod rhywfaint o fonitro ansoddol mewnol wedi'i gyflawni ar hyd y gwasanaeth, gan gynnwys gwirio cronfa ddata, arolygu gyda chwmni a gwirio cofnodion. Roedd y cofnodion a gadwyd, yn unol â'r weithdrefn, yn cadarnhau natur a maint y gweithgarwch monitro. Mewn perthynas â hylendid bwyd, trafodwyd â rheolwyr ynghylch yr angen i ehangu cwmpas y weithdrefn i gynnwys strategaeth orfodi amgen, ymchwiliadau clefydau trosglwyddadwy ac awdurdodi swyddogion. Roedd angen datblygu'r weithdrefn monitro safonau bwyd mewnol i gynnwys strategaeth orfodi amgen, ac i roi cyfarwyddyd ar yr amllder y dylid monitro ffeiliau.
- 19.6 Roedd yr awdurdod yn adolygu ei gynnydd o ran bodloni anghenion yr Ymchwiliad Cyhoeddus i Achosion o *E.coli* O157 yn Ne Cymru ym mis Medi 2005 yn flynyddol, a gwnaed hynny ddiwethaf ym mis Tachwedd 2015.

- 19.7 Roedd yr awdurdod yn gallu dangos bod cynnydd swyddogion o ran cyrraedd targedau perfformiad, hyfforddi ac agweddau ansoddol eu gwaith wedi'i drafod mewn cyfarfodydd tîm rheolaidd ac yn ystod cyfarfodydd goruchwyllo unigol.
- 19.8 Roedd swyddogion wedi mynychu hyfforddiant er mwyn sicrhau bod sgoriau risg hylendid bwyd yn cael eu rhoi ar waith yn gyson yn unol ag Atodiad 5 o'r Cod Ymarfer Cyfraith Bwyd. At hynny, roeddent wedi cymryd rhan mewn ymarfer cysondeb cenedlaethol a gydlynwyd gan yr ASB.
- 19.9 Mae'r awdurdod wedi cynnal arolygon i ddefnyddwyr er mwyn cael adborth allanol ar rai agweddau ar gyflawni gwasanaeth.
- 19.10 Roedd cofnodion monitro mewnol yn cael eu cadw gan reolwyr ers o leiaf dwy flynedd.

***Argymhelliad***

- 19.11 Dylai'r awdurdod:
- (i) Ehangu cwmpas ei weithdrefnau monitro mewnol ar gyfer hylendid bwyd i gynnwys strategaeth orfodi amgen, ymchwiliadau clefydau trosglwyddadwy ac awdurdodiadau swyddogion, a chynnwys Strategaeth Orfodi Amgen yn ei weithdrefnau monitro safonau bwyd mewnol, gan nodi amllder gweithgarwch monitro ffeiliau. Yna, dylai roi'r gweithdrefnau diwygiedig ar waith. [Y Safon – 19.2]

## **20 Adolygiad Trydydd Parti neu Adolygiad gan Gymheiriaid**

- 20.1 Ym mis Ionawr 2014, roedd yr awdurdod, yn yr un modd â'r 21 awdurdod lleol arall yng Nghymru, wedi cyflwyno gwybodaeth mewn perthynas â dau archwiliad â ffocws gan yr Asiantaeth Safonau Bwyd – Ymateb Llywodraeth Leol yng Nghymru i Argymhellion yr Ymchwiliad Cyhoeddus i'r Achosion o E.coli O157 yn Ne Cymru ym mis Medi 2005 a Dulliau Awdurdodau Lleol o Reoli Ymyriadau Mewn Busnesau Bwyd Sydd Newydd Gofrestru. Mae'r adroddiadau archwilio â ffocws hyn ar gael drwy:  
[www.food.gov.uk/enforcement/auditandmonitoring](http://www.food.gov.uk/enforcement/auditandmonitoring) – cliciwch ar 'Cymraeg'
- 20.2 Roedd swyddogaethau Gwasanaeth Iechyd yr Amgylchedd yr awdurdod, a oedd yn cynnwys gwasanaethau hylendid bwyd ac ymchwilio i glefydau heintus sy'n gysylltiedig â bwyd, wedi cael eu hadolygu gan Swyddfa Archwilio Cymru yn 2013/14. Nodwyd canfyddiadau'r adroddiad gan Bwyllgor Craffu'r awdurdod ar 23 Mehefin 2015.

## 21 Hyrwyddo Diogelwch a Safonau Bwyd

21.1 Roedd yr awdurdod wedi cyflawni nifer o fentrau gyda'r nod o hyrwyddo hylendid a safonau bwyd. Roedd y gweithgareddau'n cynnwys y canlynol:

- cymryd rhan mewn canllawiau cenedlaethol ar safonau bwyd ar gyfer siopau tecawê, a gyfieithwyd i chwe iaith;
- rhoi sgwrs i ysgol leol ar y Cynllun Sgorio Hylendid Bwyd;
- rhoi sgysiau i fusnesau lleol ar alergenau a labelu;
- arddangos sut i olchi dwylo mewn ysgolion lleol;
- defnyddio cyfryngau cymdeithasu i hyrwyddo busnesau bwyd sydd wedi cyflawni sgôr hylendid o 5;
- anfon llythyrau cynghori i fusnesau bwyd ynghylch y gofynion labelu ac alergenau newydd;
- defnyddio cyfryngau cymdeithasu i hyrwyddo rhybuddion bwyd;
- cyhoeddi erlyniadau bwyd ar ei wefan.

### **Arfer da – Defnyddio'r cyfryngau cymdeithasu**

Roedd yr awdurdod wedi defnyddio'r cyfryngau cymdeithasu i hyrwyddo'r Cynllun Sgorio Hylendid Bwyd ac i gyhoeddi rhybuddion bwyd.

21.2 Roedd gwybodaeth am hylendid a safonau bwyd ar gael i ddefnyddwyr a busnesau ar wefan yr awdurdod.

21.3 Roedd cofnodion gweithgareddau hyrwyddo yn cael eu cadw gan y swyddogion arweiniol.

### **Archwilwyr:**

#### **Archwilydd Arweiniol: Craig Sewell**

Archwilwyr: Owen Lewis  
Nathan Harvey

Asiantaeth Safonau Bwyd Cymru  
Llawr 11  
Tŷ Southgate  
Wood Street  
Caerdydd  
CF10 1EW

**Cynllun Gweithredu Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili**  
**Dyddiad yr Archwiliad: 18 – 22 Ionawr 2016**

Mynd i'r afael â (argymhelliad yn cynnwys paragraff safonol)	Erbyn (dyddiad)	Gwelliannau arfaethedig	Y camau a gymerwyd hyd yma
3.23 (i) Sicrhau y caiff amrywiadau mewn perthynas ag ymyriadau sefydliadau hylendid bwyd risg is eu nodi yn y Cynllun Gwasanaeth. [Y Safon – 3.1]	Cwblhawyd		Cwblhawyd yng Nghynllun Gwasanaeth Bwyd 2016/17.
5.9 (i) Diwygio ei awdurdodiadau safonau bwyd i sicrhau y caiff swyddogion eu hawdurdodi'n gywir dan yr holl ddeddfwriaeth briodol. [Y Safon – 5.1]  (ii) Cadw cofnodion o hyfforddiant a phrofiad perthnasol pob swyddog safonau bwyd awdurdodedig yn unol â'r Cod Ymarfer Cyfraith Bwyd. [Y Safon – 5.5]	Cwblhawyd  Cwblhawyd		Tachwedd 2016, Gweithdrefn awdurdodi OP-01 wedi'i hadolygu a'i diwygio. Awdurdodiadau swyddogion Safonau Bwyd wedi'u diwygio. Awdurdodiadau swyddogion nad ydynt yn Safonau Bwyd wedi'u hychwanegu.  Cwblhawyd mis Ionawr 2017. Caiff cofnodion cymwysterau a hyfforddiant swyddogion eu cynnal a'u cadw yn electronig.
7.24 (i) Sicrhau bod ymyriadau/arolygiadau hylendid bwyd yn cael eu cynnal ar yr amllder gofynnol a bennir gan y Cod Ymarfer Cyfraith Bwyd. [Y Safon – 7.1]  (ii) Sicrhau, lle bo'n berthnasol, y caiff Strategaethau Gorfodi Amgen eu cyflawni, ac y rhoddir y dyddiad ar bob ffurflen gofrestru fel bod sefydliadau wedi'u cofrestru yn unol â'r Cod Ymarfer Cyfraith Bwyd, canllawiau a gyhoeddir yn ganolog a gweithdrefnau lleol. [Y Safon – 7.2]	Yn ystod 2016/2017 a 2017/2018	Cynllun ar waith i fynd i'r afael â'r ymyriadau hyn yn ystod 2016/17 – 2017/18 gyda goramser swyddogion/ymgysylltu â chontractiwr.  Cyflawni gwiriadau fel rhan o fonitro mewnol.	Blaenoriaethu busnesau risg uwch. Cyflawnwyd strategaethau gorfodi amgen ar gyfer busnesau risg isel tu allan i gwmpas y Cynllun Sgorio Hylendid Bwyd.  Ymyriadau risg isel yn parhau.  Caiff pob ffurflen gofrestru ei stampio â'r dyddiad wrth iddi ddod i law

Mynd i'r afael â (argymhelliad yn cynnwys paragraff safonol)	Erbyn (dyddiad)	Gwelliannau arfaethedig	Y camau a gymerwyd hyd yma
<p>(iii) Asesu cydymffurfiaeth sefydliadau yn ei ardal i'r safonau a ragnodir yn gyfreithiol; yn enwedig mewn perthynas â gwiriadau ar darddiad bwyd wedi'i fewnforio a gwiriadau marciau iechyd / ID. [Y Safon – 7.3]</p>		<p>Cyflawni gwiriadau fel rhan o waith monitro mewnol.</p>	<p>Mae ffurflenni arolygu a sefydliadau cymeradwy wedi'u diwygio i gynnwys nodyn i atgoffa swyddogion i gofnodi'r wybodaeth hon.</p>
<p>7.44 (i) Sicrhau bod ymyriadau ac arolygiadau safonau bwyd mewn sefydliadau yn cael eu cynnal ar yr adegau sy'n ofynnol yn ôl Cod Ymarfer Cyfraith Bwyd. [Y Safon – 7.1]</p> <p>(ii) Cynnal ymyriadau/arolygiadau, gan gynnwys Strategaeth Orfodi Amgen, yn unol â'r ddeddfwriaeth berthnasol, y Cod Ymarfer Cyfraith Bwyd a chanllawiau a gyhoeddir yn ganolog. [Y Safon – 7.2]</p> <p>(iii) Asesu cydymffurfiaeth sefydliadau yn ei ardal â'r safonau a ragnodir yn gyfreithiol; a sicrhau y cymerir camau dilynol priodol er mwyn mynd i'r afael ag achosion o ddiffyg cydymffurfio yn unol â Pholisi Gorfodi'r awdurdod. [Y Safon – 7.3]</p>	<p>Yn ystod 2017/18</p> <p>Yn ystod 2017/18</p> <p>Yn ystod 2017/18</p>	<p>Cyflawni gwiriadau fel rhan o waith monitro mewnol.</p> <p>Cyflawni gwiriadau fel rhan o waith monitro mewnol.</p> <p>Monitro mewnol i wirio y caiff y gwelliannau eu rhoi ar waith yn ymarferol.</p>	<p>Mehefin 2017 – Polisi Arolygiadau Safonau Bwyd mewn Sefydliadau Bwyd wedi'i ddiwygio. Mae'r polisi'n gosod sut caiff arolygiadau safonau bwyd mewn sefydliadau bwyd eu blaenoriaeth, a sut caiff sefydliadau eu dewis ar gyfer ymyrryd.</p> <p>Mehefin 2016 – Gweithdrefn Safonau Bwyd OP-13 Strategaeth Orfodi Amgen newydd wedi'i llunio a'i rhoi ar waith. Mae 358 o'r 408 o sefydliadau bwyd risg isel wedi dychwelyd eu ffurflenni arolygu hunanasesu hyd yn hyn.</p> <p>Dosbarthwyd y Polisi Gorfodi newydd i staff ar 27/10/2016.</p> <p>Mae gan swyddogion fynediad at weithdrefnau Llawlyfr Bwyd a Llawlyfr Ansawdd Safonau Masnach, ac maent yn eu dilyn.</p> <p>Rhagfyr 2016 – Hyfforddiant Safonau Bwyd mewnol i'r staff. Roedd hwn yn cynnwys gweithdrefnau Ansawdd Bwyd, gan gynnwys ymyriadau/casglu data, tramgwyddau sylweddol, ailymweliadau, hysbysu a dulliau cofnodi.</p>

Mynd i'r afael â (argymhelliad yn cynnwys paragraff safonol)	Erbyn (dyddiad)	Gwelliannau arfaethedig	Y camau a gymerwyd hyd yma
<p>Diwygio'r gweithdrefnau ymyrryd i roi canllaw ar ddefnyddio arbenigwyr a Strategaeth Orfodi Amgen [Y Safon – 7.4]</p> <p>(v) Sicrhau bod arsylwadau a wnaed a/neu ddata a gynhyrchwyd yn ystod ymyriad/arolygiad yn cael eu cofnodi mewn modd amserol er mwyn atal gwybodaeth berthnasol rhag mynd ar goll, a bod cofnodion cyfoes o ymyriadau yn cael eu storio yn y fath fodd fel y gellir eu hadfer. [Y Safon – 7.5]</p>	<p>Cwblhawyd</p> <p>Yn ystod 2017/18</p>	<p>Cyflawni gwiriadau fel rhan o waith monitro mewnol.</p>	<p>Mehefin 2016 Gweithdrefn Ymyriadau mewn Sefydliadau Bwyd OP-03 wedi'i diwygio i gynnwys canllawiau ar ddefnyddio arbenigwyr.</p> <p>Hysbyswyd y staff am y newidiadau yn ystod sesiwn hyfforddi mewnol ym mis Rhagfyr 2016.</p> <p>Rhagfyr 2016 – Cafodd y swyddogion eu hail-hyfforddi mewn perthynas â chofnodi a chadw data ymyriadau.</p> <p>Ionawr 2016 – Gweithdrefn Monitro Mewnol OP-02 wedi'i diwygio i gynnwys archwiliadau o ffeiliau ymyriadau. Hysbyswyd y staff ar 30/01/17.</p>
<p>8.9 (i) Diwygio'r weithdrefn safonau bwyd i gynnwys amser targed ar gyfer ymateb i gwynion safonau bwyd a cheisiadau gwasanaeth. [Y Safon – 8.1]</p>	<p>Cwblhawyd</p>		<p>Cwblhawyd mis Ionawr 17. Gweithdrefn Gwynion a Cheisiadau am Wasanaeth OP-04 wedi'i diwygio. Mae'r weithdrefn yn cyfeirio at safonau gwasanaeth cwyno sydd wedi'u cynnwys yn y weithdrefn Cwynion ac Ymholiadau OP-301. Rhoddwyd gwybod i'r staff drwy e-bost am y newidiadau ar 30/01/17.</p>
<p>12.10 (i) Cymryd camau priodol yn unol â'i Bolisi Gorfodi lle nad ystyrir bod canlyniadau samplu Safonau bwyd yn foddhaol. [Y Safon – 12.7]</p>	<p>Yn ystod 2017/18</p>	<p>Cyflawni gwiriadau fel rhan o waith monitro mewnol.</p>	<p>Dosbarthwyd y Polisi Gorfodi newydd i staff ar 27/10/2016.</p> <p>Rhagfyr 2016 – Roedd hyfforddiant diweddar mewnol i staff yn cynnwys Samplu OP-05. Roedd yn cynnwys y camau dylid eu cymryd yn dilyn canlyniadau samplu niweidiol.</p> <p>Ionawr 2017, Gweithdrefn Monitro Mewnol OP-02 wedi'i diwygio i gynnwys archwiliadau o ffeiliau ymyriadau. Hysbyswyd y staff am y newidiadau drwy e-bost ar 30/01/17.</p>



Mynd i'r afael â (argymhelliad yn cynnwys paragraff safonol)	Erbyn (dyddiad)	Gwelliannau arfaethedig	Y camau a gymerwyd hyd yma
13.9 (i) Diwygio'r weithdrefn ar gyfer ymchwilio i achosion achlysurol o glefydau heintus i gynnwys y camau gofynnol lle na chaiff holiaduron drwy'r post eu dychwelyd er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth â chanllawiau a gyhoeddir yn ganolog. [Y Safon -13.2]	Cwblhawyd		Anfonwyd llythyr i atgoffa'r rheiny nad oedd wedi ymateb. O fis Awst 2016 ymlaen. Gweithdrefn wedi'i hadolygu ym mis Ionawr 2017.
15.17 (i) Adolygu a diwygio'r Polisi Gorfodi i gynnwys meini prawf ar gyfer defnyddio hysbysiadau statudol a champau gorfodi mewn sefydliadau cymeradwy yn unol â'r Cod Ymarfer Cyfraith Bwyd a chanllawiau swyddogol, a chynnwys cyfeiriad at fusnesau a weithredir gan yr awdurdod. [Y Safon – 15.1]	Cwblhawyd		Hydref 2016 – Polisi Gorfodi wedi'i adolygu a'i ddiwygio Wedi'i gymeradwyo gan yr Aelod Cabinet a Phennaeth Diogelu'r Cyhoedd.
<p>(ii) Adolygu, diwygio a chyflwyno ei weithdrefnau gorfodi cofnodedig i gynnwys rhagor o fanylion ar drefniadau lleol ar gyfer dinistrio a chael gwared ar fwyd anniogel, a darparu gwybodaeth mewn perthynas â dulliau amgen o gyflwyno Hysbysiadau Gwella Hylendid Bwyd. [Y Safon – 15.2]</p> <p>(iii) Sicrhau y caiff gwaith gorfodi hylendid bwyd ei gynnal yn unol â'i weithdrefnau, y Cod Ymarfer Cyfraith Bwyd a chanllawiau a gyhoeddir yn ganolog. [Y Safon – 15.2 a 15.3]</p>	<p>Cwblhawyd</p> <p>Yn ystod 2017/18</p>	<p>Cyflawni gwiriadau fel rhan o waith monitro mewnol</p>	<p>Cwblhawyd mis Ionawr 2017.</p> <p>Caiff gwaith gorfodi Hylendid Bwyd ei gyflawni yn unol â'r gweithdrefnau. Caiff materion eu trafod â swyddogion eraill at ddibenion cysondeb.</p>

<b>Mynd i'r afael â (argymhelliad yn cynnwys paragraff safonol)</b>	<b>Erbyn (dyddiad)</b>	<b>Gwelliannau arfaethedig</b>	<b>Y camau a gymerwyd hyd yma</b>
Sicrhau y caiff pob penderfyniad ar gamau gorfodi eu cofnodi, ac y cânt eu gwneud ar ôl ystyried polisi gorfodi'r awdurdod. Dogfennu'r rhesymau am wyro oddi wrth y meini prawf a nodwyd yn y Polisi Gorfodi mewn unrhyw ffordd. [Y Safon – 15.4]	Yn ystod 2017/18	Cyflawni gwiriadau fel rhan o waith monitro mewnol.	Caiff penderfyniadau a wneir ar gamau gorfodi eu cofnodi, a'u gwneud ar ôl ystyried Polisi Gorfodi'r awdurdod.  Diwygiwyd gweithdrefnau Ansawdd Safonau Masnach 'Casglu Adroddiadau' OP 603.6 a 'Prosesu Adroddiadau' OP 604 ym mis Ionawr 2016.
16.9 (i) Cadw cofnodion cyfredol a chywir ar gyfer pob sefydliad bwyd yn ei ardal, yn unol â'r Cod Ymarfer Cyfraith Bwyd a chanllawiau a gyhoeddir yn ganolog. Bydd y cofnodion hyn yn cynnwys adroddiadau ar bob ymyriad/arolygiad (gan gynnwys copïau o adroddiadau arolygiadau bwyd), penderfyniadau ar gydymffurfiaeth â gofynion cyfreithiol a wneir gan y swyddog awdurdodedig, manylion y camau a gymerwyd lle nodwyd achos o fethu â chydymffurfio a manylion unrhyw gamau gorfodi a gymerwyd. Dylai'r awdurdod hefyd gofnodi, gyda rhesymau, unrhyw achosion o wyro oddi wrth weithdrefnau sefydledig. [Y Safon – 16.1]	Yn ystod 2017/18	Cyflawni gwiriadau fel rhan o waith monitro mewnol.	Caiff cofnodion o sefydliadau bwyd, ymyriadau ac adroddiadau eu cadw ar Civica APP.  Yn ystod 2016, cafodd Ffurflenni Adrodd am Arolygiadau Safonau Bwyd (Atodiad 2 y weithdrefn Ymyriadau mewn Sefydliadau Bwyd OP-O3) eu peilota a'u cyflwyno. Mae hyn yn cynnwys nodyn atgoffa i gofnodi data.  Hyfforddiant mewnol Rhagfyr 2016 – atgoffwyd swyddogion am bwysigrwydd casglu data, cofnodi achosion o ddiffyg cydymffurfio a chymau gorfodi, ac unrhyw wyro o'r gweithdrefnau a osodwyd. Ionawr 2016, Gweithdrefn Monitro Mewnol OP-02 wedi'i diwygio i gynnwys archwiliadau o ffeiliau ymyriadau. Hysbyswyd y staff mewn e-bost am y newidiadau ar 30/01/17.
19.11 (i) Ehangu cwmpas ei weithdrefnau monitro mewnol ar gyfer hylendid bwyd i gynnwys strategaeth orfodi amgen, ymchwiliadau clefydau trosglwyddadwy ac awdurdodiadau swyddogion, a chynnwys strategaeth orfodi amgen yn ei weithdrefnau monitro mewnol safonau bwyd, gan nodi amllder gweithgarwch monitro ffeiliau. Rhoi'r gweithdrefnau diwygiedig ar waith. [Y Safon – 19.2]	Yn ystod 2017/18	Bydd gwiriadau ychwanegol yn cael eu cyflawni fel rhan o weithdrefn monitro mewnol ddiwygiedig.	Diogelwch Bwyd – cwblhawyd ym mis Ionawr 2017, y weithdrefn wedi'i diwygio.  Safonau Bwyd – cwblhawyd ym mis Ionawr 2017. Gweithdrefn Monitro Mewnol wedi'i hadolygu a'i diwygio. Rhoddwyd gwybod i'r staff mewn e-bost am y newidiadau ar 30/01/17.

***Dull/Methodoleg yr Archwiliad***

Cynhaliwyd yr archwiliad gan ddefnyddio amrywiaeth o ddulliau a methodolegau, fel a ganlyn:

***(1) Archwilio Polisiâu a Gweithdrefnau'r Awdurdod Lleol***

Cafodd y polisiâu, y gweithdrefnau a'r dogfennau cysylltiedig canlynol eu harchwilio:

- Cynllun Gwasanaeth Gorfodi Bwyd 2015/16
- Cynllun Tîm Gwasanaethau Masnachol Safonau Masnach 2015/16
- Adroddiad Perfformiad Blynyddol 2014/15
- Cynllun Corfforaethol 2015/16
- Cynllun Corfforaethol 2013/17
- Amcanion Gwella 2013/14
- Rhan 2 – Amcanion Gwella 2014/15
- Cynllun Gwasanaeth Blynyddol Diogelu'r Cyhoedd 2015/16
- Adroddiad y Cabinet 5 Chwefror 2014: Penodi Dadansoddwyr Cyhoeddus ac Amaethyddol
- Adroddiad y Cabinet 16 Hydref 2013: Diwygiadau i Awdurdodiadau Swyddogion o fewn Adran Diogelu'r Cyhoedd
- Pwyllgor Craffu Adfywio a'r Amgylchedd – 17 Chwefror 2015: Polisi Gorfodi Gwasanaeth Diogelu'r Cyhoedd
- Pwyllgor Craffu Adfywio a'r Amgylchedd – 1 Gorffennaf 2014: Gorfodi Diogelu'r Cyhoedd – 2013/14
- Cabinet 11 Rhafyr 2013: Deddf Sgorio Hylendid Bwyd (Cymru) 2013
- Cabinet – 4 Mawrth 2015: Polisi Gorfodi Gwasanaeth Diogelu'r Cyhoedd
- Cyflwyniad Diogelu'r Cyhoedd gan RH i Bwyllgor Comisiynydd y Gwasanaeth Iechyd 2015
- Pwyllgor Craffu Gofal Iechyd Cymdeithasol a Lles – 23 Mehefin 2015: Gorfodi Diogelu'r Cyhoedd – 2014/15
- Pwyllgor Craffu Gofal Iechyd Cymdeithasol a Lles – 23 Mehefin 2015: Adroddiad Swyddfa Archwilio Cymru ar Wasanaethau Iechyd yr Amgylchedd
- Gweithrefn weithredol Diogelwch Bwyd / Iechyd a Diogelwch / Clefydau Trosglwyddadwy FS OP-001: Rheoli Dogfennau
- Gweithdrefn Weithredol Safonau Bwyd OP-06: Rheoli Dogfennau
- Rhan 3 y Cyfansoddiad: Cyfrifoldeb dros Swyddogaethau
- Cyfarfod Blynyddol – 14 Mai 2015: Materion Cyfansoddiadol
- Gweithdrefn Weithredol Diogelwch Bwyd FS OP-024: Awdurdodi
- Gweithdrefn Weithredol Safonau Bwyd FS OP-01: Awdurdodiadau

- Gweithrefn Weithredol Rheoli Clefydau Trosglwyddadwy EHOP – 11: Awdurdodi
- Strwythur y gwasanaeth bwyd
- Gweithrefn Weithredol Diogelwch Bwyd FS OP-015: Rhagnodi a Chynnal a Chadw
- Gweithrefn Weithredol Safonau Bwyd FS OP-09: Offer ac Offer Diogelwch Personol
- Gweithrefn Weithredol Diogelwch Bwyd FS OP-019: Rheoli'r Gronfa Ddata
- Polisi Ymyriadau Diogelwch Bwyd 2015
- Polisi Ymyriadau Safonau Bwyd mewn Sefydliadau Bwyd
- Gweithrefn Weithredol Diogelwch Bwyd FS OP-002: Sefydliadau newydd a newidiadau i fanylion sefydliadau
- Gweithrefn Weithredol Diogelwch Bwyd FS OP-003: Ymyriadau Diogelwch Bwyd
- Gweithrefn Weithredol Diogelwch Bwyd FS OP-005: Ailymweliadau
- Gweithrefn Weithredol Diogelwch Bwyd FS OP-0025: Datgysylltu Dŵr
- Gweithrefn Weithredol Diogelwch Bwyd FS OP-028: Y Cynllun Sgorio Hylendid Bwyd
- Gweithrefn Weithredol Diogelwch Bwyd FS OP-022: Sefydliadau cymeradwy – y broses ymgeisio
- Gweithrefn Weithredol Diogelwch Bwyd FS OP-023: Sefydliadau cymeradwy – Ymyriadau
- Gweithrefn Weithredol Diogelwch a Safonau Bwyd FS OP-006: Arolygu bwyd
- Gweithrefn Weithredol Safonau Bwyd FS OP-03: Ymyriadau mewn sefydliadau bwyd
- Gweithrefn Weithredol Safonau Bwyd FS OP-11: Hysbysiadau
- Polisi Cwynion am Fwyd
- Gweithrefn Weithredol Diogelwch Bwyd FS OP-010: Cwynion am fwyd
- Gweithrefn Weithredol Safonau Bwyd FS OP-04: Cwynion a Cheisiadau am Wasanaeth
- Gweithrefn Weithredol Safonau Bwyd FS OP-301: Cwynion ac Ymholiadau
- Gweithrefn Weithredol Diogelwch a Safonau Bwyd FS OP-012: Awdurdod Cartref
- Gweithrefn Weithredol Diogelwch a Safonau Bwyd FS OP-019: Rheoli'r Gronfa Ddata
- Adroddiad y Cabinet 6 Mawrth 2012: Penodi Dadansoddwyr Cyhoeddus ac Amaethyddol
- Polisi Samplu Bwyd
- Rhaglen Samplu Diogelwch Bwyd 2014-15
- Gweithrefn Weithredol Diogelwch Bwyd FS OP-011: Samplu bwyd
- Gweithrefn Weithredol Safonau Bwyd FS OP-05: Samplu

- Cynllun Samplu y Tîm Gwasanaethau Masnachol (Safonau Masnach) 2014/15
- Cynllun Rheoli Achosion
- Gweithrefn Weithredol Rheoli Clefydau Trosglwyddadwy EHOP – 11: Awdurdodi
- Rheoli Clefydau Trosglwyddadwy EHSP – 02: Archwilo achosion achlysurol o wenwyn bwyd *Campylobacter*
- Rheoli Clefydau Trosglwyddadwy EHSP – 01: Archwilo achosion achlysurol o wenwyn bwyd tybiedig
- Rheoli Clefydau Trosglwyddadwy EHSP – 03: Archwilo achosion achlysurol o heintiau gastroberfeddol
- Rheoli Clefydau Trosglwyddadwy EHSP – 05: Archwilo achosion achlysurol o wenwyn bwyd *E. coli* O157
- Rheoli Clefydau Trosglwyddadwy EHSP – 06: Archwilo achosion achlysurol o Listeriosis
- Rheoli Clefydau Trosglwyddadwy EHSP – 07: Archwilo achosion achlysurol o Hepatitis E
- Rheoli Clefydau Trosglwyddadwy EHSP – 09: Cyflwyno Gorchmynion Rhan 2A
- Rheoli Clefydau Trosglwyddadwy EHSP – 10: Pwerau Awdurdodau Lleol
- Rheoli Clefydau Trosglwyddadwy tu allan i oriau OHSP – 09: Archwilio achosion achlysurol o wenwyn bwyd *E. coli* O157 y tu allan i oriau
- Polisi Digwyddiadau a Rhybuddion Bwyd
- Gweithdrefn Weithredol Diogelwch Bwyd a Safonau Bwyd FS OP-013: Digwyddiadau Bwyd a Rhybuddion Bwyd
- Polisi Gorfodi Gwasanaeth Diogelu'r Cyhoedd
- Gweithdrefn Weithredol Diogelwch Bwyd FS OP-004: Protocol Gorfodi
- Gweithdrefn Weithredu Safonol: Hysbysiadau Cosb Benodedig
- Protocol Gweithredol ar gyfer Awdurdodau Cyhoeddus sy'n rhan o Gweithrediadau Deddf Rheoleiddio Pwerau Ymchwilio 2000
- Gweithdrefn Weithredol Diogelwch Bwyd a Safonau Bwyd FS OP-014: Bwyd wedi'i fewnforio
- Gweithdrefn Safonau Masnach a Gweithredu Masnachol OP603.4: Llunio Adroddiadau
- Gweithdrefn Safonau Masnach a Gweithredu Masnachol OP612.3: Cyfweiliadau a gaiff eu Recordio'n Ddigidol (CD)
- Gweithdrefn Safonau Masnach a Gweithredu Masnachol OP601.2: Dechrau Troseddau
- Gweithdrefn Safonau Masnach a Gweithredu Masnachol OP602.4: Gweithdrefn Troseddau
- Gweithdrefn Safonau Masnach a Gweithredu Masnachol OP604.3: Prosesu Adroddiadau
- Gweithdrefn Safonau Masnach a Gweithredu Masnachol OP605.4: Gweithdrefnau Erllyn

- Gweithdrefn Safonau Masnach a Gweithredu Masnachol OP606.3: Tystiolaeth a Phwerau
- Gweithdrefn Safonau Masnach a Gweithredu Masnachol OP607.5: Gwarantiau Mynediad
- Gweithdrefn Safonau Masnach a Gweithredu Masnachol OP608.3: Datganiadau
- Gweithdrefn Safonau Masnach a Gweithredu Masnachol OP609.3: Cyfweiliadau
- Gweithdrefn Safonau Masnach a Gweithredu Masnachol OP610: Llyfrau Nodiadau Awdurdodedig
- Gweithdrefn Safonau Masnach a Gweithredu Masnachol OP611: Storio, Cadw a chael gwared ar Dystiolaeth
- Gweithdrefn Safonau Masnach a Gweithredu Masnachol OP613.3: Awdurdodiadau ar gyfer Gwyliadwraeth dan Gyfarwyddyd
- Gweithdrefn Safonau Masnach a Gweithredu Masnachol OP614.3: Awdurdodiadau ar gyfer Ffynonellau Gwybodaeth Dynol Cudd
- Gweithdrefn Safonau Masnach a Gweithredu Masnachol OP615.4: Awdurdodiadau ar gyfer Casglu Data Cyfathrebiadau
- Gweithdrefn Safonau Masnach a Gweithredu Masnachol OP616.1: Cyswllt â Diffynyddion a Thystion
- Gweithdrefn Safonau Masnach a Gweithredu Masnachol OP617: Lluniau Digidol Tystiolaethol
- Gweithdrefn Safonau Masnach a Gweithredu Masnachol OP618.2: Cyfweld â Thystion sy'n Agored i Niwed
- Gweithdrefn Safonau Masnach a Gweithredu Masnachol OP619: Casglu Manylion Perchennog Cerbyd drwy'r Rhwydwaith Gwrth Dwyll Genedlaethol
- Gweithdrefn ar gyfer Cyhuddiadau mewn Gorsafoedd Heddlu
- Polisi Cwyno Corfforaethol
- Gweithdrefn Weithredol Diogelwch Bwyd a Safonau Bwyd FS OP-008: Cwynion am y Gwasanaeth
- Gweithdrefn Weithredol Diogelwch Bwyd FS OP-021: Rheoli Rheolwyr
- Gweithdrefn Weithredol Safonau Bwyd FS OP - 02: Monitro Mewnol

## **(2) Adolygu Ffeiliau a Chofnodion**

Adolygwyd nifer o gofnodion yr awdurdodau lleol yn ystod yr archwiliad, gan gynnwys:

- Cymeradwyo Cynllun Bwyd 2015/16
- Cofnodion y Cabinet 4 Mawrth 2015: Polisi Gorfodi Gwasanaeth Diogelu'r Cyhoedd
- Cofnodion Cyngor Blynyddol 14 Mai 2015:
- Awdurdodiadau a chofnodion hyfforddi swyddogion
- Cofnodion graddnodi

- Cofnodion cyffredinol sefydliadau bwyd
- Ffeiliau sefydliadau cymeradwy
- Cofnodion cwynion am fwyd a sefydliadau bwyd
- Deunyddiau cynghori a hyrwyddo a ddarperir i fusnesau a defnyddwyr
- Gwerthuso Prosiect Rheoli Diogelwch Bwyd
- Hysbysiad o Benderfyniadau'r Cabinet 5 Chwefror 2014: Penodi Dadansoddwyr Cyhoeddus ac Amaethyddol
- Cofnodion y Cabinet 5 Chwefror 2014: Penodi Dadansoddwyr Cyhoeddus ac Amaethyddol
- Cofnodion samplu bwyd
- Cofnodion hysbysiadau o glefydau heintus sy'n gysylltiedig â bwyd
- Cofnodion digwyddiadau bwyd
- Hysbysiad o Benderfyniadau'r Cabinet 4 Mawrth 2015: Polisi Gorfodi Gwasanaeth Diogelu'r Cyhoedd
- Cofnodion gorfodi anffurfiol a ffurfiol
- Cofnodion cyfarfodydd mewnol a chyfarfodydd cyswllt allanol
- Cofnodion monitro mewnol

### **(3) Adolygu cofnodion ar gronfeydd data:**

Ystyriwyd detholiad o gofnodion ar gronfeydd data yn ystod yr archwiliad er mwyn:

- Adolygu ac asesu pa mor gyflawn yw'r cofnodion ar y gronfa ddata am arolygiadau bwyd, ymchwiliadau i gwynion am fwyd a sefydliadau bwyd, samplau a gymerwyd gan yr awdurdod, camau gorfodi ffurfiol a gweithgareddau eraill, ac i gadarnhau cysondeb â chofnodion ffeil.
- Asesu pa mor gyflawn a chywir yw'r gronfa ddata sefydliadau bwyd.
- Asesu gallu'r system i gynhyrchu adroddiadau ar weithgarwch gorfodi cyfraith bwyd a'r wybodaeth fonitro sy'n ofynnol gan yr Asiantaeth Safonau Bwyd.

### **(4) Cyfweiliadau â swyddogion**

Cynhaliwyd cyfweiliadau â swyddogion er mwyn cael rhagor o wybodaeth am sut yr oedd trefniadau'r awdurdod ar gyfer rheoli bwyd yn cael eu gweithredu a'u cynnal yn ymarferol. Cyfwelwyd â'r swyddogion canlynol:

Uwch Swyddog Iechyd yr Amgylchedd

Uwch Swyddog Safonau Masnach

Swyddogion Safonau Masnach gan gynnwys y swyddog sydd â'r cyfrifoldeb arweiniol dros safonau bwyd

Swyddogion Iechyd yr Amgylchedd yr ardal, gan gynnwys y swyddog sy'n bennaf gyfrifol am glefydau trosglwyddadwy.

Caiff barn a safbwyntiau a godwyd yn ystod cyfweiliadau'r swyddogion eu cadw'n gyfrinachol ac ni chyfeirir atynt yn uniongyrchol yn yr adroddiad.

**(5) Ymweliadau dilysu ar y safle:**

Cynhaliwyd ymweliadau gwirio â swyddogion mewn pedwar sefydliad bwyd lleol. Prif bwrpas yr ymweliadau hyn oedd ystyried effeithiolrwydd asesiad yr awdurdod o gydymffurfiaeth y busnes bwyd â'r gofynion perthnasol.



**Geirfa**

Archwilio Rhyng-awdurdod	System lle y gallai awdurdodau lleol archwilio gwasanaethau gorfodi cyfraith bwyd ei gilydd yn unol â safon ansawdd gytunedig.
Archwiliwr Bwyd	Unigolyn â'r cymwysterau angenrheidiol i gynnal dadansoddiad microbiolegol ar ran yr awdurdod lleol.
Arolygiad	Archwiliad o sefydliad bwyd neu fwyd anifeiliaid er mwyn dilysu cydymffurfiaeth â chyfraith bwyd a bwyd anifeiliaid.
Asiantaeth Safonau Bwyd	Rheoleiddiwr y Deyrnas Unedig ar gyfer diogelwch bwyd, safonau bwyd a bwyd anifeiliaid.
Awdurdod Cartref	Awdurdod lle y mae canolfan benderfynu berthnasol wedi'i lleoli ac sydd wedi ymgymryd â'r cyfrifoldeb o gynghori'r busnes hwnnw ar faterion diogelwch bwyd/safonau bwyd. Mae'n gweithredu fel pwynt cyswllt canolog ar gyfer ymholiadau awdurdodau gorfodi eraill ynglŷn â pholisïau a gweithdrefnau bwyd y cwmni hwnnw.
Awdurdod Gwreiddiol	Awdurdod y mae busnes yn cynhyrchu neu'n pecynnu nwyddau neu wasanaethau o fewn ei ardal, ac y mae'r awdurdod yn gweithredu fel pwynt cyswllt canolog ar ei gyfer o ran ymholiadau awdurdodau gorfodi eraill ynglŷn â'r cynhyrchion hynny.
Awdurdod Unedol	Awdurdod lleol lle y mae'r holl swyddogaethau wedi'u cyfuno, er enghraifft Awdurdodau Cymru a Bwrdeistrefi Llundain. Bydd cyfrifoldebau Awdurdod Unedol yn cynnwys gorfodi hylendid bwyd, safonau bwyd a bwyd anifeiliaid.
Busnes heb sgôr	Busnes bwyd wedi'i nodi gan awdurdod fel un sydd

	heb gael asesiad sgorio risg rheoleiddiol.
Bwrdd Safonau Masnach Cenedlaethol	Cymdeithas o brif swyddogion safonau masnach.
Codau Ymarfer	Codau Ymarfer y Llywodraeth a gyhoeddwyd o dan Adran 40 Deddf Diogelwch Bwyd 1990 fel canllawiau i awdurdodau lleol ar orfodi deddfwriaeth fwyd.
Cofrestru	Proses gyfreithiol sy'n mynnu bod pob gweithredwr busnes bwyd yn hysbysu'r awdurdod bwyd priodol pan fydd yn sefydlu busnes bwyd.
CPIA (The Criminal Procedures and Investigations Act)	Deddf Gweithdrefnau ac Ymchwiliadau Troseddol 1996 – mae'n llywodraethu'r gweithdrefnau ar gyfer ymgymryd ag ymchwiliadau ac achosion troseddol.
Cyfarwyddwyr Diogelu'r Cyhoedd yng Nghymru	Sefydliad o swyddogion sy'n arwain Gwasanaethau Diogelu'r Cyhoedd yn awdurdod lleol Cymru.
Cyferwerth ag Amser Llawn	Ffigur sy'n cynrychioli'r rhan honno o amser swyddog unigol sydd ar gael i gyflawni rôl benodol neu gyfres benodol o ddyletswyddau. Mae'n adlewyrchu'r ffaith y gallai unigolion weithio'n rhan-amser, neu y gallai fod ganddynt gyfrifoldebau eraill yn y sefydliad nad ydynt yn gysylltiedig â gorfodi bwyd.
Cynllun Gwasanaeth	Dogfen a gynhyrchir gan awdurdod lleol sy'n amlinellu ei gynlluniau ar gyfer darparu a chyflwyno gwasanaeth bwyd i'r gymuned leol.
Cynllun Sgorio Hylendid Bwyd	Cynllun sgorio busnesau bwyd sy'n rhoi gwybodaeth i ddefnyddwyr am eu safonau hylendid.
Cytundeb Fframwaith	Mae'r Cytundeb Fframwaith yn cynnwys: <ul style="list-style-type: none"> <li>• Safon Gorfodi Cyfraith Bwyd</li> <li>• Canllawiau Cynllunio Gwasanaeth</li> </ul>

- Cynllun Monitro
- Cynllun Archwilio

Mae'r **Safon** a'r **Canllawiau Cynllunio Gwasanaeth** yn amlinellu disgwyliadau'r Asiantaeth o ran cynllunio a darparu gwasanaeth gorfodi cyfraith bwyd.

Mae'r **Cynllun Monitro** yn mynnu bod awdurdodau lleol yn cyflwyno ffurflenni i'r Asiantaeth bob tri mis ar eu gweithgareddau gorfodi bwyd h.y. nifer yr arolygiadau, samplau ac erlyniadau.

O dan y **Cynllun Archwilio**, bydd yr Asiantaeth Safonau Bwyd yn cynnal archwiliadau o wasanaethau gorfodi cyfraith bwyd awdurdodau lleol yn unol â'r meini prawf a osodwyd yn y Safon.

Dadansoddwr Cyhoeddus	Swyddog sydd â'r cymwysterau angenrheidiol a benodir yn ffurfiol gan yr awdurdod lleol i gynnal dadansoddiad cemegol o samplau bwyd.
Fforwm aelodau	Fforwm awdurdod lleol lle mae Aelodau'r Cyngor yn trafod a gwneud penderfyniadau am wasanaethau gorfodi cyfraith bwyd.
Ffurflenni OCD (Official Control of Foodstuffs Directive)	Ffurflenni ar weithgareddau gorfodi cyfraith bwyd lleol y mae'n rhaid eu cyflwyno i'r Undeb Ewropeaidd o dan y Gyfarwyddeb Rheolaeth Swyddogol ar Fwyd.
Gweithiwr Proffesiynol / Swyddog Iechyd yr Amgylchedd	Swyddog a gyflogir gan yr awdurdod lleol i orfodi deddfwriaeth diogelwch bwyd.
HACCP	Dadansoddi Peryglon a Phwynt Rheoli Critigol – system rheoli diogelwch bwyd a ddefnyddir mewn busnesau bwyd i amlygu pwyntiau yn y broses gynhyrchu lle mae'n hollbwysig, o safbwynt

	diogelwch bwyd, bod y mesur rheoli'n cael ei gynnal yn gywir, gan ddileu neu leihau'r perygl i lefel ddiogel.
Hylendid Bwyd / Bwyd Anifeiliaid	Y gofynion cyfreithiol sy'n ymwneud â diogelwch ac iachusrwydd bwyd / bwyd anifeiliaid.
Hysbysiad Camau Unioni	Hysbysiad a roddir gan un o Swyddogion Awdurdodedig yr awdurdod lleol o dan Reoliad 9 Rheoliadau Hylendid Bwyd (Cymru) 2006 (fel y'u diwygiwyd) i weithredwr busnes bwyd er mwyn gosod cyfyngiadau ar sefydliad, offer neu broses hyd nes y bydd gwaith penodedig wedi'i wneud i gydymffurfio â gofynion hylendid bwyd.
Hysbysiad Gwella Hylendid	Hysbysiad a roddir gan un o Swyddogion Awdurdodedig yr awdurdod lleol o dan Reoliad 6 Rheoliadau Hylendid Bwyd (Cymru) 2006, sy'n mynnu bod perchennog busnes bwyd yn cyflawni gwaith addas er mwyn sicrhau bod y busnes yn cydymffurfio â rheoliadau hylendid.
LAEMS	System electronig yw System Monitro Camau Gorfodi Awdurdodau Lleol (LAEMS) a ddefnyddir gan awdurdodau lleol i adrodd ar eu gweithgareddau gorfodi cyfraith bwyd i'r Asiantaeth Safonau Bwyd.
PACE	Deddf yr Heddlu a Thystiolaeth Droseddol 1984 – mae'n llywodraethu'r gweithdrefnau ar gyfer casglu tystiolaeth mewn ymchwiliadau troseddol.
Prif Awdurdod	Awdurdod lleol sydd wedi datblygu partneriaeth â busnes sy'n masnachu ar draws ffiniau awdurdod lleol ac sy'n rhoi cyngor i'r busnes hwnnw.
Penaethiaid Iechyd yr Amgylchedd Cymru	Grŵp o gynrychiolwyr proffesiynol sy'n cefnogi ac yn hyrwyddo iechyd yr amgylchedd a'r cyhoedd yng Nghymru.

Pwynt Rheoli Critigol	Cam yng ngweithrediadau busnes bwyd lle mae mesurau rheoli yn hanfodol er mwyn atal neu ddileu perygl bwyd neu ei leihau i lefelau derbyniol.
Rheolaethau Swyddogol	Unrhyw fath o fesur rheoli ar gyfer dilysu cydymffurfiaeth â chyfraith bwyd a bwyd anifeiliaid.
Rhybuddion Perygl Bwyd/ Rhybuddion Bwyd	System a weithredir gan yr Asiantaeth Safonau Bwyd i rybuddio'r cyhoedd ac awdurdodau lleol am broblemau cenedlaethol neu ranbarthol yn ymwneud â diogelwch bwyd.
Safonau bwyd	Y gofynion cyfreithiol sy'n ymdrin ag ansawdd, cyfansoddiad, labelu, cyflwyniad a hysbysebu bwyd, a deunyddiau sy'n dod i gysylltiad â bwyd.
Safonau Masnach	Y gwasanaeth mewn awdurdod lleol sy'n gorfodi deddfwriaeth safonau bwyd a bwyd anifeiliaid, ymhlith cyfrifoldebau eraill.
Sefydliadau cymeradwy	Sefydliadau gweithgynhyrchu bwyd a gymeradwywyd gan yr awdurdod lleol, o fewn cyddestun deddfwriaeth benodol, ac y rhoddwyd cod adnabod unigryw iddynt sy'n berthnasol ym maes masnach genedlaethol a/neu ryngwladol.
Sgôr risg	System sy'n rhoi sgôr i sefydliadau bwyd yn ôl risg ac sy'n pennu pa mor aml y dylid arolygu'r sefydliadau hynny. Er enghraifft, dylai sefydliadau risg uchel o ran hylendid gael eu harolygu o leiaf bob 6 mis.
Swyddog awdurdodedig	Swyddog â chymwysterau addas sydd wedi'i awdurdodi gan yr awdurdod lleol i weithredu ar ei ran wrth orfodi deddfwriaeth, er enghraifft.
Swyddog Safonau Masnach	Swyddog a gyflogir gan yr awdurdod lleol a allai orfodi deddfwriaeth safonau bwyd a bwyd anifeiliaid, ymhlith cyfrifoldebau eraill.

Ymyrraeth

Dull neu dechneg a ddefnyddir gan awdurdod i gadarnhau bod busnes yn cydymffurfio â chyfraith bwyd neu fwyd anifeiliaid, neu i'w gynorthwyo i wneud hynny.